
# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

Rhif 169 TACHWEDD/RHAGFYR 1990

## *Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Iach!*



*Y Mari Lwyd – o gasgliad Sain Ffagan*

CYNNWYS

| | | | |
|---|---|---|---|
| Colofn Shân ....... | 3 | Safbwynt ............ | 7 |
| Sêr .............. | 5 | Y Calendar ......... | 2 |
| Bwth Ruth ......... | 4 | Croesair ........... | 19 |

YN RHAD AC AM DDIM

# CYWYDD CROESO I'R ŴYL GERDD DANT

## *Bro Morgannwg 1990*

Tyrd i'r ŵyl; estyn ddwylo
I fôr o hwyl yn y Fro.
Nid tuchan gwlypder Tachwedd
A glywn yn miri ein gwledd.
Mae 'na wefr, rhanna'r mwynhad
Trwy ddweud, "Hwn yw'r traddodiad".

Mae ysbryd Illtud yn dal –
Y cynnwrf sy'n ein cynnal;
Rhyw awydd am newydd nod
A geisiwn ni o'r gosod;
Menter, her yw byw o hyd,
Dyfal ofal yw hefyd.

Iolo a Thomas William
Roes ffiol lawn a gwres fflam
I eneidiau cenhadol
Gludo'n hiaith i'n gwlad yn ôl;
Apêl iaith ar wefus plant
Ydyw allor diwylliant.

Ynys a ffair, cywair coll
Encil rhag ein difancoll,
Yma Gwynfor fu'n cymell
Mai rhaid oedd creu Cymru well;
Dygodd ei weledigaeth
I'r tir uwch o odre'r traeth.

I'n heddiw hy o'n ddoe hen
Tyrd a'th alaw yn llawen
Rhoes y bobol a folwyd
Gnwd o liw i genedl lwyd.
Antur fu'n tynnu'r tannau
A rhoi hoen i'w cân barhau

Mwy yw cenedl na'i chwedlau
Mwy na'i chysur "bur-hoff-bau",
Mae ei bod yn rhythm ei byw
Yn ei hyder; hon ydyw
Cyfalaw fodern lawen
Ein cân hi, a'r gainc yn hen.

**Euryn Ogwen Williams**

# CÔR ADRODD CAERDYDD



Yn dilyn eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd, ail-ymgasglodd y merched i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni eleni.

Buont yn fwy uchelgeisiol eleni a chystadlu mewn dwy gystadleuaeth sef y côr adrodd ac adrodd i gyfeiliant.

O dan arweiniad Eirlys Britton cafwyd cyflwyniad canmoladwy dramatig o'r darn gosod o'r 'Stafell Ddirgel' gan gyflwyno dramodeg fechan yr un pryd.

Y darn gosod i'r gystadleuaeth adrodd i gyfeiliant unrhyw offeryn oedd 'Capelau' – Rhydwen Williams, yn sôn am gau capelau 'ac y mae'r organau'n ysgrap' ond nid ysgrap oedd yr allweddellau a ddefnyddiwyd i greu naws capelaidd i'r darn ac yr sicr crewyd naws arbennig a theimlodd yr holl barti wefr yn y diweddglo.

"O, Dân Sanctaidd, a fu'n wyrth unwaith yn y berth, llosg y rhwbel lle y mae Nebo, Hermon, Calfaria ar werth!"

## Y CALENDAR

**TACHWEDD:**

**7:** "Pryc ar-frys" Ann Ladd Merched y Wawr Radur.

**9:** Cymry'r Wenallt yng ngwesty'r Pantmawr am 8.00pm. Siaradwr: Aled Gwyn.

**9:** Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd yn festri Capel Bethel, Penllin Road am 7.30pm. Mrs Owenna Hopwood yn "Hel Achau".

**12:** 7.30 Merched y Wawr – Minny St – Mrs Rae Evans.

**12:** Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd yng Nghlwb Ifor Bach am 8.00pm. Mr Ernest Williams – "ENTROPI AC ECONOMEG".

**16:** Cymdeithas y Tabernacl – "Penny Readings" Bryn Evans a Carys Burston.

**16:** Cylch Llyfryddol Caerdydd yn Ystafell G1. Adeilad y Dyniaethau, Prifysgol Cymru, Column Road am 7.00pm. "Freud a Chymru" gan Dr Tom Davies, Blaendulais.

**17:** Côr Philharmonic Caerdydd – Noson Gymreig – Neuadd y Brifysgol – Heol Corbett.

**19-20:** Theatr Gwynedd – Ieni – Sherman.

**20:** Cymdeithas Minny Street yn ymweld â Chymdeithas Tabernacl.

**30:** Cylch Cinio'r Barri a'r fro: Noson y Gwragedd. Y Wraig Wadd: Eilonwy Rhys Jones.

**RHAGFYR:**

**3:** Cymdeithas Gwyddonol Cylch Caerdydd yng Nghlwb Ifor Bach am 8.00pm. Dr David Stickler: "Ar lan y môr mae rhosus cochion".

**4:** Cymdeithas Minny Street: Noson yng ngofal Elinor Patchell a Marged Williams.

**5:** Merched y Wawr cangen Bro Radur: Addurniadau Nadolig – Alma Carter.

**7:** Cymrodorion Caerdydd yn festri Minny Street – Codi Cwestiwn.

**14:** Cymry'r Wenallt yng ngwesty'r Butchers, Rhiwbeina am 8.00pm Noson Geilys.

**27:** Cymdeithas y Tabernacl – ymweld â Noddfa Ynysybwl.

DYMUNA'R DINESYDD GYDNABOD GYDA DIOLCH GEFNOGAETH Y SWYDDFA GYMREIG A CHYMDEITHAS GELFYDDYDAU DE DDWYRAIN CYMRU TUAG AT GOSTAU CYHOEDDI.

# COLOFN SHÂN

**Sut dechreuai'r mis yma 'dwch? 'Dwi newydd ddwad adra o'r siop yn Sain Ffagan a'n nhraed yn sgaldian, ac awydd ymlacio'n llwyr a gwneud dim. Ond, y mae'r Dinesydd yn galw. Un peth ydwi wedi i ddysgu yno ydy, os yda chi eisiau bod yn glen – peidiwch da chi – a mynd i mewn i siop rhyw ddeng munud cyn iddi gau. Coeliwch fi mae gwneud hynny yn greulon i'r sawl sy'n dyheu am gael mynd adra. Rhyw fel yna y bydda i'n mynd ati i lunio fy ngholofn o fis i fis. Papur glân, beiro, a gadael i'r meddwl grwydro.**

Fis yn ôl, roedda ni yn y Dinesydd yn coffau Y Parchedig Raymond Williams, dyn hynaws, os bu un erioed ac mae'n meddyliau ni efo'r teulu o hyd. Yn yr un rhifyn, teulu arall mewn galar. Gyda chwithdod y bu raid inni goffau Ifan Wyn Williams hefyd, ac fe garwn ddiolch i Gwilym Owen am ei deyrnged bersonnol. Ymhen rhai dyddiau fe gollais innau ffrind yn frawychus o sydyn, ac i garedigion yr Urdd fe fydd yn gwybyddus i chi.

Yn greulon arwyddocaol, bu farw John Lane yn un o bwyllgorau'r Urdd. Daliai i fynychu pwyllgorau er iddo ymddeol o'i swydd fel Trefnydd Gorllewin Morgannwg. Cyfrifaf John a Cath yn ffrindiau clos, yn dyddio'n ôl i'r dyddiau hwyliog llawen "teyrnas diniweidrwydd" ym Mhantyfedwn, Llangrannog a Glanllyn. Ond, y cyfeillgarwch wedi para am dros ddeng mlynedd ar hugain. Ymweld â'n gilydd yn achlysurol, ac anfon anrhegion Nadolig i Huw, Elin a Mari hyd nes i Huw a Mari briodi. Cyfnod hir yn pontio pob math o brofiadau. Rhywbeth i'w drysori yw cael ffrindiau triw.

Doedd bod yn driw ddim yn anodd i John, ac y mae'n ail natur i Cath. Bu John yn gwbwl deyrngar i'r Urdd ac i holl oblygiadau addewid triphlyg y Mudiad. Bu'r ddau hefyd yn lwcus o'i cymdeithas. Y mae cynhesrwydd hwyliog ac agosatrwydd pobol Cwmafan yn gwbwl unigryw a diarhebol. Balch wyf hefyd o sylwi bod stamp John ar Huw ei fab, yr un boneddigeirwydd greddfol, a Sandra, ei wraig yn amlwg o'r un anian. Nid cydymdeimlad byrhoedlog gaiff Cath gan bobol Cwmafan, ond cefn tra bydd. Braint i mi yw cael bod yn rhan, er yn achlysurol iawn, o gymdeithas glos Cymry Cymraeg Cwmafan.

Roedd cynhebrwng John yn un arbennig iawn. Llu o garedigion yr Urdd, o bob oed, yn cynrychioli sawl tô o'r ffyddloniaid, o'r De ac o'r Gogledd, yn ymgynull, ie, yn drist, ac eto rhyw lawenydd rhyfedd, a diolchgarwch a deimlais i yn y gwasanaeth. Yn ei farw, a thrwy gyfrwng y gwasanaeth – fe gawsom i gyd ein hatgoffa o'r gwerthoedd y'n mhagwyd ynddynt – a bywyd John yn esiampl o'r gwerthoedd hynny. Chwith dy golli John. Chwith colli gwrando ar dy dafodiaeth, dy hiwmor a'th deireidi. Ond da cael dy adnabod.



**Shân**

*PYTIAU – Diolch i Gwenan Murphy am y llun hyfryd o Elen ap Robert ac Iwan Hughes.*

## ARGYFWNG YN Y LLYFRGELL GENEDLAETHOL

Taflwyd cwmwl du dros ysbryd staff y Llyfrgell Genedlaethol gan adroddiad cyfrinachol y Swyddfa Gymreig. Gwrthododd corff llywodraethol y Llyfrgell – y Cyngor – dderbyn yr adroddiad nes derbyn cyngor annibynol ychwanegol. Bydd y Llywydd a'r Llyfrgellydd yn cwrdd â'r staff i drafod yr adroddiad ar 12 Hydref. Ond nid yw'r staff yn orobeithiol y bydd y Cyngor yn fodlon neu â'r ewyllys i frwydro dros ddyfodol y Llyfrgell.

Ni fydd y Llyfrgell yn llyfrgell genedlaethol yn wir ystyr y gair pe gweithredir argymhellion yr adroddiad, oherwydd yr awgrym na ddylai bellach fod yn llyfrgell hawlfraint gyda'r hawl i dderbyn pob llyfr a gyhoeddir ym Mhrydain. hytrach, yn ol yr adroddiad, fe ddylai'r Llyfrgell ganolbwyntio ar ddeunydd Cymraeg a Cheltaidd.

Beirniedir hefyd y system cyflogi presennol. Ceir awgrym y dylai israddio sawl swydd, a dileu nifer arall. Bellach, ni fyddai angen cymwysterau arbennig ar gyfer swyddi newydd. Ond yn hytrach, dylid gofyn am radd yn unig ar gyfer swyddi proffesiynol tra na fydd angen cymwysterau ar y staff yn yr Ystafelloedd Darllen.

Datgelir gwrth-Gymreictod parhaus yn argymhellion yr adroddiad (y mae'r fersiwn Gymraeg yn wallus ei hiaith hefyd). Yn ôl y Swyddfa Gymreig, ni ddylai mynnu ar y Gymraeg fel cymwyster i bob swydd yn y Llyfrgell, hyd yn oed, mae'n debyg, petai'n cynnwys delio â'r cyhoedd. (Ond fe argymhellir y dylai'r Llyfrgell ganolbwyntio ar astudiaethau Gymraeg a Cheltaidd!)

Ymhellach, gan gyd-fynd â thueddiad holl polisiau Thatcher, argymhellir y dylai wahodd cwmni preifat i ymgymryd â gwaith y porthorion (sydd yn Gymry Cymraeg lleol). Ar yr un seiliau dylid cau gwaith argraffu y Llyfrgell, gan gynnig gwaith argraffu i dender. Dyma ddangos anwybodaeth arolygwyr y Swyddfa Gymreig ar ei fwyaf: awgrymir y gallai Gwasg Gregynog neu Wasg Brifysgol Cymru ymgymryd â'r gwaith ar ran y Llyfrgell. Mae'n debyg nad ydynt sylweddoli fod Gwasg Gregynog yn wasg gain a taw cyhoeddwyr yw'r Wasg y Brifysgol, ac nid busnes argraffu.

Ni fu ysbryd y staff erioed mor isel.

# Caroline Munn Dysgwraig

"Sylweddolais fy mod eisiau dysgu'r Gymraeg o ddifri ar ôl i mi fynd i Wersyll Glanllyn am y tro cyntaf . . . Ymunais yn ddiweddarach â Chôr ieuenctid De Morgannwg a gwneud ffrindiau newydd o Ysgol Glantaf. Mae nhw wedi bod yn help mawr – yn siarad yn Gymraeg yn unig â mi . . . Gobeithio yn y pendraw bydden nhw'n gallu anghofio fy mod i wedi dysgu siarad Cymraeg . . . Am y dyfodol, r'wyn siwr y byddaf yn byw fy mywyd drwy gyfrwng y Gymraeg hyd y gallaf".

Dyma eiriau Caroline Munn o Ysgol Cardiff High wrth iddi ddiolch yng nghyfarfod Hydref Clwb Cinio Gŵyr Caerdydd am nawdd a'i galluogodd i fynd eto i Wersyll Glanllyn yn ystod yr haf. Wedi ei llongyfarch ar ei huodledd yn ein hiaith, pwysleisiodd aelodau'r cylch nid yn unig gyfraniad yr athrawon hynny sydd yn llafurio'n galed i gyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith yn ein hysgolion ond hefyd yr angen am gryfhau'r gyfarthrach rhwng yr ifanc sydd yn dysgu'r iaith a gweithgareddau Cymraeg y tu allan i'r ysgol.

Caiff aelodau'r Clwb y fraint o groesawu'r boneddigesau i'w cinio blynyddol yng Ngwesty'r Parc ar Nos Wener 16 Tachwedd. Estynnir croeso i bawb ymuno a ni y noson honno i wrando ar ein gwestai anrhydeddus, Miss Norah Isaac. Os am ychwaneg o wybodaeth ffoniwch Elfed Evans, Ysgrifennydd y Cylch ar Caerdydd 618019.

# LYN ac ELENID





Dwy gyn-ddisgybl o Ysgolion Bryntaf a Glantaf yw Lyn Bassett ac Elenid Owen; y ddwy bellach yn offerynwyr o fri a'r ddwy wedi ymestyn eu doniau cerddorol ymhell tu hwnt i ffiniau eu magwraeth yng Nghaerdydd.

Ar ôl gadael yr ysgol bu Lyn yn astudio'r delyn am dair blynedd yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru cyn treulio blwyddyn o hyfforddiant pellach yn Conservatoire Nice. Ym 1987 aeth i Ynys Hong Kong (man cartrefol, cynnes meddai) ac yn ystod y flwyddyn diwethaf bu'n athrawes telyn (a thipyn o aerobics) mewn gwesty o aur a marmor a godwyd gan Swltan Oman. Ymhlith ei disgyblion yno oedd plant rhai o weinidogion y llywodraeth a'i bwriad, ar ôl cyfnod byr yng Nghaerdydd, oedd ail-gydio yn ei gwaith yn y Dwyrain-Canol. Ond, wrth gwrs, mae'r sefyllfa politicaidd wedi tarfu ar ei chynlluniau ac ar hyn o bryd mae Lyn yn gobeithio dilyn ei gyrfa yma yng Nghymru – a braf iawn ei gweld hi yn ei hôl.

Prin bod angen atgoffa Cymry Caerdydd a Chymru mai'r ffidil yw offeryn Elenid gan ei bod yn adnabyddus i bawb fel cyn-arweinydd gyda'r Cherddorfa Ieunctid Cymru. Graddiodd yn y Music Hoch Schule yn Cologne gan ennill ysgoloriaeth oddi yno i astudio yn Banff, Canada. Yn ystod ei chyfnod yno derbyniodd gynnig i ymuno a Phedwarawd Ludwig, pedwarawd adnabyddus led-led Ewrop. Canolfan y pedwarawd yw Paris ac yno mae Elenid yn byw ar hyn o bryd gan deithio'r cyfandir o Perigeux yn ne-orllewin Ffrainc i Vienna, Yugoslavia a Warsaw gyda'i chydchwaraewyr.

Llongyfarchiadau i'r ddwy ar eu llwyddiant. Dymunwn yn dda iddyn nhw gan wybod y byddwn yn clywed llawer mwy o sôn amdanyn nhw yn y dyfodol. Gobeithiwn hefyd eu gweld yn aml ar lwyfan Neuadd Dewi Sant.

# BWTH RUTH

**Wel helo pa hwyl sydd?** Yn ôl yn mis Gorffennaf mi fûm mewn priodas braf iawn yn Nhalybont, Sir Aberteifi. Mi roedd Rhiannon Parry – cyfneither i mi yn priod Tegid Dafis o Landudoch. Mi ddaeth yna garfan reit nobl o deulu'r Parry's ynghyd a chael hwyl fawr yng nghwmni ein gilydd. Cystal oedd yr hwyl fel bod Dafydd Llewelyn (fy nghefnder) wedi mynd ati i drefnu aduniad – mi ddigwyddodd yng ngwesty'r Carreg Brân – jest o dan bont y Tiwb, pont y pedwar llew tew.

Dyma fynd â digon o bapur sgwenu a Beiro hefo mi er mwyn holi a stilio a mynd i 'garped bag' pob un. Yn naturiol rown i isio gwybod pa riant oedd y 'Parry'? Pa berthynas oeddan nhw i Isaac Parry? (ein hen, hen daid ni oll) a Beth oedd enw ein cartref ym Methel? Mae nhw'n dweud mai dim ond dau deulu oedd ym mhentre Bethel ar un cyfnod teulu Michael a theulu'r Parry's – ac mi efallai byddain well i mi egluro mai am Fethel, Arfon dwi'n sôn.

Tra rown i'n niwsans i bawb wrth holi perfedd – roedd y lleill yn hel straeon ag o'r swn a'r siarad yn amlwg yn mwynhau.



Wedi hir fusnesa dyma ddod i'r casgliad fod yna o leia bedwar ugain o'r teulu ar dir y byw ag mai o un gangen yn unig oedd y pymtheg oedd yno yn dod – sef Isaac Parry. Roedd ganddo maen debyg unarddeg o blant. Roedd y gweddill ohonom ni yn dod o gangen Tyddyn Difyr, Tre gôf, Bethel.

Braf oedd hel enwau tai y teulu – Minffordd, Gorffwysfa, Bodlondeb a.y.b., a'r enwau cynta oedd yn brigo i'r wyneb dro ar ôl tro oedd Owen, Isaac a Thomas.

Darlun byw a lliwgar ges i dwin meddwl o gyfnod arbennig – dechre'r ganrif mewn pentre chwarelyddol yn Arfon, a braf ydi gwybod bod hwyl a diawlineb yn dal i frithior brîd – os oes yna un ohonoch chi darllenwyr Y Dinesydd yn adnabod Cledwyn, Min y Nant, Caernarfon mi wyddoch chi be dwin feddwl.

**O.N:** Mae yna drefniant am noson arall ym Mis Mai!!

# Ffilm am "O M Edwards"

Mae "Ffilm Cymru" wedi cynhyrchu y ffilm uchod ac mae wedi cynnig cynllun i'w dangos mewn mannau gwahanol trwy'r wlad gan roi cyfle i Fudiad Ysgolion Meithrin elwa ar hynny.

Daw i sinema "Chapter" yng Nghaerdydd ar nosau Iau a Gwener, Rhagfyr 6ed a 7fed am 6.15 a phris tocyn mynediad yw £2.50 (£1.75 i fyfyrwyr a £1.00 i blant a'r di-waith a'r henoed) – y prisiau wedi eu trefnu gan Chapter o flaen llaw. Bydd Ffilm Cymru yn cadw nifer o'r seddi i'w hunain a'r gweddill yn cael eu cynnig i Fudiad Ysgolion Meithrin i'w gwerthu (hy tua 150).

Os dewch, felly i weld y ffilm ddiddorol hon – sydd ag is-deitlau – byddwch yn cefnogi achos tra phwysig a dylanwadol yng Nghymru heddiw. Am fanylion pellach, cysyllter â Eluned Owen Rook – Caerdydd 620747.

# SÊR Y DINESYDD

**Eiry Palfrey**

## NADOLIG LLAWEN IAWN I HOLL DDARLLENWYR 'Y DINESYDD'

### ARIES

Mae na duedd ynnoch chi ar hyn o bryd i ddweud eich meddwl yn rhy groyw a dechrau mwy nag un anghydfod os na fyddwch yn ofalus. Serch hynny bydd y bos yn edmygu'ch creadigrwydd yn fawr ac yn debygol o'ch gwobrwyo am eich gwreiddioldeb. Peidiwch ag arwyddo unrhyw gytundeb cyfreithiol heb ddarllen y print mân yn ofalus yn gyntaf.

### TAURUS

Byddai gweithio gyda grŵp o bobl ar brosiect anghonfensiynol yn sicrhau llwyddiant ariannol a gyrfaol i chi ar hyn o bryd. Mae'n bosib yn byddwch yn teimlo bod eich dwylo yng nghlwm am gyfnod a bod pob math o rwystrau yn llesterio'ch cynnydd. Amynedd piau hi am y tro – daw pethau'n llawer haws ymhen ychydig.

### GEMINI

Dylai hwn fod yn gyfnod llwyddiannus iawn i chi yn y gwaith, bydd gennych ddigonedd o ynni i ganolbwyntio ar brosiectau newydd, a mae'n bosib er na fyddwch yn newid swydd y byddwch yn newid bos, lle y cewch fwy o gyfrifoldeb ac ymddiriedaeth yn eich gallu. Mae'n bosib y byddwch yn trefnu taith yn y dyfodol agos. Efallai cewch newyddion am enedigaeth.

### CANCER

Os y gwnewch chi adael i rywun gymryd mantais o'ch caredigrwydd mae'n bosib y byddwch yn difaru. Gwell fyddai canolbwyntio ar waith elusengarol, cewch fwy o fodd-had personol o wneud hynny. Tua diwedd Mis Tachwedd efallai y byddwch chi a'ch cymar yn mynd ar daith bleserus.

### LEO

Mae'r planed Iau yn dal i ddod a lwc a chyfle i chi, ond mae na beryg eich bod yn teuddu ennill pwysau hefyd. Mae hwn yn gyfnod ardderchog i chi ganolbwyntio ar eich gyrfa. Daw'r ysfa i harddu'r cartref neu'ch swyddfa arnoch. Cymrwch ofal o'ch iechyd, rydych chi'n agored i afiechydon llidus fel y ffliw ar hyn o bryd.

### VIRGO

O hyn ymlaen mi ddylech fod yn llwyddiannus iawn yn eich gyrfa, mae dyrchafiad yn bosib iawn o fewn yr wythnosau nesaf. A mi fydd gennych ddigon o ynni a dyfalbarhad i gyrraedd y nôd. Os oes problem yn eich blino byddai ei thrafod gyda'ch cymar neu gyfaill agos yn sicr o helpu'r sefyllfa.



### LIBRA

Efallai y bydd gofyn i chi deithio llawer mwy gyda'ch gwaith o hyn ymlaen; yn sicr bydd tramorwyr yn chwarae rhan bwysig yn eich bywyd mewn rhyw ffordd. Ceisiwch osgoi cymryd unrhyw foddion neu gyffur os nad yw wedi ei argymell gan feddyg. Mae'ch corff yn agored iawn i wenwyn ar hyn o bryd. Mi ddylech elwa'n ariannol, ond i chi wrthsefyll y demtasiwn i or-wario.

### SCORPIO

Tachwedd yw eich mis chi, Scorpio, mwynhewch e! Fe ddylai'ch sefyllfa ariannol wella'n sylweddol o hyn ymlaen. Rydych yn llawn syniadau creadigol ar hyn o bryd a bydd pobl mewn awdurdod yn barod iawn i gymryd sylw ac i barchu'ch gallu a'ch gwybodaeth drylwyr. Ond mae na elfen o dwyll a'ch cwmpas, felly cymrwch ofal mawr o'ch arian a'ch syniadau. Taw piau hi!

### SAGITTARIUS

Os ydych yn dal yn ddibriod mae na bosibilrwydd cryf y cewch eich sgubo oddiar eich traed gan ryw Lothario neu Seiren benderfynnol o fewn yr wythnosa nesa 'ma; ac os ydych yn briod yna bydd eich perthynas yn hapus a llewyrchus. Ond cadwch ffrwyn ar eich tafod a'ch tymer rhag cymylu eich Paradwys.

### CAPRICORN

Os bu eich iechyd yn dioddef yn ddiweddar mi ddylai fod yn llawer gwell o hyn ymlaen. A mi fydd gennych lawer o ynni a brwdfrydedd tuag at eich gwaith, a'r gallu i gyflawni llawer. Bydd gwaeithio ar eich pen eich hun yn gweddu'n well i chi ar hyn o bryd. Ond mae damweiniau yn y cartref yn debygol, felly cymrwch ofal.

### AQUARIUS

Rydych ar fin dechrau cyfnod creadigol iawn yn eich bywyd, yn y gwaith, a'ch bywayd personol – efallai clywch sôn am enedigaeth. Os ydych yn ddibriod fe allai rhamant ddod i'ch bywyd cyn bo hir. Ond cymrwch ofal mae elfen o dwyll o'ch cwmpas. Rhaid i chi feithrin agwedd mwy ymarferol tuag at eich sefyllfa ariannol.

### PISCES

Mae hwn yn gyfnod da iawn i brynnu a gwerthu tai, neu i ehangu eich cartref. Mae tipyn o gweryla yn eich teulu ar hyn o bryd a chi fydd yn gorfod cadw'r ddesgl yn wastad. Gall cyfaill fod o help mawr i'ch cynghori ynglyn â syniad newydd sydd gennych. Rydych rywfaint ar chwâl efallai byddai ymuno â chymdeithas yn help i angori'ch bywyd.

# MAMIAITH MOTHERTONGUE

**"Largo Desolato" gan Vaclav Havel Yng Nghaerdydd a Prâg yn yr un Cyfnod**

Mae'r tymor cydweithiol – MAMIAITH/ MOTHERTONGUE – yn St Stephen's Theatre Space yn parhau gyda chynhyrchiad DALIER SYLW o "LARGO DESOLATO" (Tachwedd 7fed-17eg).

Drama gan Vaclav Havel yw "LARGO DESOLATO" dramodydd a gwrthdystiwr o Tsiecoslofacia sydd erbyn hyn yn Arlywydd y wlad; ac mae'n gyd-ddigwyddiad cynhyrfus iawn fod cynhyrchiad DALIER SYLW – cyfieithiad Cymraeg Sion Eirian o fersiwn Saesneg Tom Stoppard – yn digwydd yn yr un cyfnod â'r blaen berfformiad Tsiecoslofacaidd o "Largo Desolato" sy'n cael ei berfformio ym Mhrâg.

Comedi angeuol yw "LARGO DESOLATO" am athronydd o dan bwysau, nid yn unig gan gynrychiolwyr y wladwriaeth i ddiarddel ei waith, ond hefyd gan gyfeillion a chefnogwyr sy'n ei annog i sefyll yn gadarn. Mae Havel yn adrodd stori am frwydr ysbrydol, am chwilio heb ddarganfod, am unigrwydd a'r frwydr i oresgyn unigrwydd. Mae iaith ac arddull yn themâu pwysig iddo; trwy ei iaith, sy'n wead unigryw o'r llenyddol a'r cyffredin y cawn ddarganfod ei arddull.

Yn cymryd rhan yn y ddrama mae: Owen Garmon, Timothy Lyn, Sharon Morgan, Richard Lynch, Wyndham Price, Marged Esli, Gareth Morris, Matthew Aran, John Tregenna, Russell Gomer, a Grug-Maria Davies. Y cyfarwyddwraig yw Bethan Jones.

Yn dilyn "LARGO DESOLATO" bydd "THE MYTH OF MICHAEL RODERICK" gan Edward Thomas (Tachwedd 21ain-Rhagfyr 1af), sef cyfaddasiad o'r ddrama "Adar Heb Adenydd" a ysgrifennodd Edward Thomas ar gyfer DALIER SYLW yn 1989, ac a ddenodd ymateb cynhyrfus yng Nghymru a Chaeredin.

Ac, fel rhan annatod o'r tymor MAMIAITH, bydd y newyddiadurwr Russel Isaac yn cadeirio cyfres o drafodaethau a seminarau ar y themâu sy'n codi o'r tymor, tra bydd Heather Jones yn dod a'r tymor o ddatganiadau cerddorol i ben trwy ymddangos yn y Magic Lantern Cafe ar amserau cinio Iau a Gwener, Tachwedd 8,9,15 a 16.

Cysyllter â St Stephen's Theatre Space (0222 498885) am ragor o fanylion, diwedd AM RAGOR O FANYLION, CYSYLLTER A: LESLIE HERMAN JONES (0222 626596).

## Amgueddfa Genedlaethol Cymru

### DATHLIADAU'R NADOLIG

Prif Adeilad, Parc Cathays, Caerdydd
Rhagfyr 6ed a'r 7fed – 6 o'r gloch – 9 o'r gloch

Rhaglen amrywiol o atyniadau tymhorol, yn cynnwys coeden Nadolig, ac ymweliad gan Sion Corn.

Cacennau Nadolig ar werth o bobty'r Amgueddfa Werin.

Bydd y siop a'r caffi yn agored, yn ogystal a'r orielau, a bydd gyfle i chi fwrw golwg ar arddangosfa ddiweddaraf yr amgueddfa:

* Y Casgliad Brenhinol – Paentiadau o Gastell Windsor Mynediad am Ddim

Dewch ag anrheg i'w gosod dan y goeden Nadolig. Bydd yr anrhegion yn cael eu rhoi at elusen.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag

Adran Gwasanaethau Cyhoeddus/Marchnata
Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB
Ffôn: (0222) 555105

## Huw Roberts BSc, ACMA

*Cyfrifydd*

Aelod o FIMBRA

*Cyngor ariannol annibynnol ar gyfer treth, pensiynau ac yswiriant personol.*

"Y Rhodfa"
5 Pine Court, Forest Hills, Talbot Green
Morgannwg Ganol CF7 8LA
☎ Llantrisant 224182

## CLWB IFOR BACH

Heol Womanby, Caerdydd CF1 2BR
Ffôn: (0222) 232199

Nos Iau Rhagfyr 6ed
**PARTI NADOLIG CYNGOR DYSGWYR**

Nos Sadwrn Rhagfyr 8fed
**STEVE EAVES A'I DRIAWD**

**Nos Sadwrn Rhagfyr 15fed**
**"HERGEST" YMDDANGOSIAD PRIN**

Tocynnau ar gael o flaenllaw. Elw'r noson i Bopath Cymru

Nos Sadwrn Rhagfyr 21
**"PARTI NADOLIG Y CLWB"**

***24.12.90 tan 27.12.90 argau!!***

## DWY FFILM AR Y SGRÎN FACH NOS NADOLIG

FFILMIAU ERYRI CYF.

**7 o'r gloch:**

**JABAS – DDY MWFI gan Penri Jones**
**Rhagor o anturiaethau Jabas a'i ffrindiau**

**9 o'r gloch:**

**'O.M.' addasiad o sgript Eigra Lewis Roberts. Cipolwg ar fywyd a gyrfa Syr O.M. Edwards, un o brif gymwynaswyr y Gymraeg.**
**Cyd-gynhyrchiad gyda'r BBC a Ffilm Cymru**

**Hoffai Ffilmiau Eryri ddiolch i drigolion Caerdydd am eu cymorth yn ystod ffilmio 'O.M.'**

nant
YN CYFLWYNO

## SHARON MORGAN FEL



# ANEST

**Cyfres am gyfreithwraig sy'n fam ac am fam sy'n gyfreithwraig**
**NOS SUL, TACHWEDD 4, 1990**
**AM 9.00 O'R GLOCH**

# SAFBWYNT

## LLE'R PERSON HŶN YN Y GYMDEITHAS

**Mae na fri heddiw ar brynu a meddiannu hen bethau. Rhoir gwerth mawr ar hen ddreser Gymreig mamgu. Po hynaf y bo'r crair mwyaf ei werth. Gresyn na fuasai hyn yr un mor wir pan ddown i ystyried cig a gwaed yn nhermau pobl, a phobl hŷn yn arbennig. Mae na le i gredu yn gyffredinol na roir yr un gwerth na pharch i'r personnau rheini y rhown iddynt y label 'hen bobl' a'r cyfryw megis y label erchyll 'geriatric'. Rhyfedd o beth fod ardaloedd ar arfordiroedd y de ar gogledd wedi derbyn yr enw 'Costa Geriatrica' am fod llawer o fobl hŷn wedi penderfynnu ymsefydlu yno ar ôl ymddeol.**

Yn rhy fynych o lawer di brisir bobl hŷn fel petaent yn rhyw sector ar wahan ac heb gael eu cydnabod fel rhan anatod o gymdeithas gyda hawl i ddewis, ac i ddewis eu hawliau.

Cyfeirir yn aml heddiw, ac mae llawer wedi ysgrifennu ar yr hyn a elwir yn henyddiaeth – Ageism. Mae'r peth yma yn rhemp yn ein gwlad, yn aml heb yn wybod i ni, ond ar brydiau hefyd yn reit amlwg. Creïr felly ddarlun anghywir o henaint a bobl hŷn. Mae'n ddelwedd neu'n ystrydeb sy'n deuddol o lynnu gan ymagor ar ragfarn yn erbyn y tô yma o'r boblogaeth. Mae'n rhaid ei ddisodli a'i wared yn gyfangwbl gan greu darlun iachach a chyweiriach o hen berson. Erbyn hyn miae deddfwriaeth sy'n annelu at ddileu hilyddiaeth a rhwydwaith ond nid felly at leihau 'henyddiaeth'.

Beth yw henyddiaeth? Mae ymagweddiadau sy'n bodoli mewn unrhyw gymdeithas fel arfer yn adlewyrchu syniadau y cryfaf a'r grwpiau mwyaf dylanwadol. Dichon na rennir yr ymagweddiadau yma gan bawb ond a dderbynir gan y rhelyw yn ddi-gwestiwn fel y norm. Lle mae na dybiaethau ynglŷn â henaint ceir henyddiaeth, sy'n tretio bobl hŷn nid fel unigolion ond fel y grwp homogenus sydd a phroblemau. Adlewyrchu'r delweddau annymunol os nad cas o bobl hŷn sy'n dawel di-seilio eu gwerth personol ac o'r herwydd yn iselu eu lle a'u statws yn y gymdeithas, yn iselu eu syniadau amdanynt eu hunain a'u cyrraeddiadau ac yn dannod iddynt hawliau cyfartal. Yn arbennig mai ymagweddiadau negyddol am y bobl hynaf sy'n frau eu hiechyd. Cyhoeddodd Cyngor Henoed yr Alban adroddiad gyda'r casgliad "Ageism leads to a perception of old age as an affliction or disease which turns into a special kind of being which is not fully human".

Mae'r darlun(iau) a geir yn hollol anghywir. Mae'r mwyafrif o bobl hyn yn fywiog, iach, galluog ac annibynol. Mae na hefyd i raddau ddarlun newydd yn dod i'r golwg sy'n cyfeirio at ymddeolwyr newydd sy'n gymharol gyfoethog.

Ceir termau newydd megis Jollies (Jet Setting Oldies with Lots of Loot) a Woopies (Well Off Older People). Felly mae na ddau ddarlun o bobl hyn sydd bellter wrth ei gilydd.

Yn anffodus mae'r darlun salaf uchod yn cael eu hybu gan y llywodraeth, y gwasanaethau, mudiadau gwirfoddol hyd yn oed, a'r cyfryngau torfol. Y trueni yw fod yr agweddau nacaol yma yn aros ac yn peri yn aml i bobl hŷn i ffitio i fewn neu gyd-ymffurfio a'r ddelwedd. Diolch am rhai sy'n gwerthryfela yn erbyn y ddelwedd yma yn diosg y wisg batrwmyddol ac yn mynnu eu dweud a'u gwneud.

Dyma enghreifftiau o'r pethau sy'n hybu'r ddelwedd yma. Ym myd iechyd, pa sawl gwaith y dywedodd y meddyg wrth berson hŷn anhwylus "Beth i chi'n ddisgwyl eich oedran chi?" Mae hyn yn ateb hollol annerbyniol. Tra fod yna afiechydon yn dueddol o ddatablygu mewn person hŷn ni ellir dweud bob amser mai henaint sy'n ei achosi. Nid afiechyd yw henaint.

Beth am y pensiwn ei hyn? Ydy mae'n annigonol i lawer er mwyn eu galluogi i ddal dau pen llinyn ynghŷd sy'n gorfodi llawe iawn o fobl hŷn i ddibynnu ar 'gonsesiynau'. Mae llawer yn ey gwerthod a gwethod gofyn amdanynt, yn rhy falch o bosib i gydnabod eu hangen. Mae consesiynau yma, yn anffodus, i aros ac felly cyfranna tuag at y ddelwedd a nodir. Y sefyllfa ddelfrydol fyddai rhoi pensiwn digonol a theilwng fel y gallont ddal eu pennau i fyny a thalu am yr hyn a ddymunent fel pob un arall.

Cyfeiriwn at y cyfryngau a'u rhan hwy i'r cyfeiriad yma a'r cwmniau sy'n hysbysebu ar y teledu. Mae i'r cyfryngau gyfle gwych i newid y ddelwedd. Cofnodir fod yna becyn gan un o'r cyfryngau a ddwed "the media, in the way they portray older people tend to mirror society's beliefs about old age". Rhaid ychwanegu fod yna ymdrech teg i newid pethau. Mae Undeb y Newyddiadurwyr wedi cynnwys cymal yn ei gôd o weithredu i geisio atal y camddarlunio yma.

A welsoch chi'r hysbyseb hwnnw a fu ar y sgrin fisoedd yn ôl ynglŷn â phensiynau. Gwelir tadcu yn yr ystafell gyda'i fab a'i wŷr bach yn annog ei fab i gymryd allan pensiwn preifat fel na byddai yn fwrdwn ar ei wŷr pan yn hen. Oes eisiau dweud rhagor.

Nid yw byd masnach yn ddi-euog chwaith wrth wahaniaethu. Ceir engreifftiau o bensiynwyr yn mynd i fewn i siop i brynu dodrefnyn newydd gwerth rhyw £200. Er ei bod mewn modd i dalu, fel r'oedd hi'n digwydd, dyma nhw yn penderfynnu manteisio ar gredit di-lôg, yna yn cael siom pan ddywedwyd wrthynt nad oeddent yn dderbyniol am eu bod yn bensiynwyr.

Buaswn yn gallu ymhelaethu o droi i fyd gwaith a gwasanaethau yn y gymdeithas lle awgrymir fod pobl yn rhy hen i fod ar y pwyllgor hwn a'r pwyllgor arall.

Preidied neb a meddwl mai syniadau sinicaidd y cyfrannwr sy'n gyfrifol am yr uchod Ffeithiau a phrofiad blynyddoedd o weithio gyda a thros bobl hŷn sy'n fy nghyflyru i wneud y sylwadau hyn.

O safbwynt y bobl hŷn, pobl ydynt sy'n rhan anatod o gymdeithas wedi cyfrannu tuag at y gymdeithas yn y gorffennol sydd a llawer i gyfrannu eto ac yn dymuno gwneud hynny, ond sy'n gorfod gwrthweithio yn erbyn y ddelwedd sydd ar lêd.

**D Haydn Thomas**
**Cyfarwyddwr,**
**Cyngor Henoed Cymru**

Ar gyfer!
Priodasau
(Eglwys neu neithior)
Cyngherddau, neu unrhyw achlysur sydd angen cerddoriaeth



*Lynne Bassett*

Y delynores yn ôl
yn ngwlad y gân

*47 Malborough Road,*
*Penylan, Caerdydd*
*CF2 5BU*
*(0222) 492020*
*(nos) 770552*

# AGOR TYMOR CYMDEITHAS CYMRY'R EGLWYS NEWYDD

**Braint Llywydd y Gymdeithas yw agor y tymor bob gaeaf, ac eleni dewisodd y Llywydd newydd, E Wyn James, sôn am ganu gwerin Cwm Taf, a hynny'n ganu gwerin Cymraeg gan mai Cymraeg oedd prif iaith y cwm tan ryw ddwy neu dair cenhedlaeth yn ôl. Ond yn ôl plant Wyn (wrth iddynt adrodd y gerdd 'Holi Afon Taf' o gyfrol W J Jones, *Bro a Dinas*), nid oedd Afon Taf yn uniaith Gymraeg; mewn ateb i gwestiynau gan Emyr ynghylch sawl iaith oedd ganddi, atebodd Eleri, ar ran yr hen afon, iddi ddysgu Lladin pan fu'r Rhufeiniaid yn yr ardal, cododd Ffrangeg gan y Normaniaid a ddaeth i godi'u cestyll yng Nghymru, a dysgodd Saesneg pan ddenwyd Saeson i'r cwm i weithio'r pyllau glo a thrin y ffwrneisi haearn.**

Cawsom gan Wyn enghreifftiau o hwiangerddi megis 'Bachgen bach o Ddowlish' a cherddi dwli megis 'Mi welas bili-pala/Yn llyncu Castell Crawsho'. Yna aeth ymlaen i sôn am ddau ddosbarth penodol o ganeuon gwerin, sef caneuon gwaith a chaneuon gŵyl. Ychen fyddai'n llusgo'r aradr, a gwrthodai rhai symud cam nes clywed cân i'w hannog i dynnu. Cafodd Wyn gwmni dau o gantorion dawnus yr Eglwys Newydd, Eleri Davies a Delwyn Siôn, i ganu rhai o'r caneuon, a chawsom glywed gan Delwyn enghraifft o gân waith, 'Cân Crwtyn y Gwartheg' – ac, wrth gwrs, yr arfer fyddai canu cerddi o'r fath o gwmpas y tân gyda'r hwyr yn ogystal ag allan yn y maes.

Nid oedd fawr o draddodiad 'canu plygain' yn ne-ddwyrain Cymru. Yn hytrach, yn ystod y ganrif ddiwethaf datblygodd yr arfer o gynnal cyfarfodydd gweddi yn y capeli ar fore'r Nadolig, gyda chanhwyllau addurnedig yn nodwedd amlwg ynddynt. Roedd gwyliau'r Nadolig a dechrau'r flwyddyn newydd yn gyfnod o rialtwch a mwynhau. Yn y cyd-destun hwn, rhaid oedd crybwyll defod y Fari Lwyd, wrth gwrs: roedd honno'n arbennig o boblogaidd yn yr ardaloedd o gwmpas Pen-tyrch a'r Eglwys Newydd, ac yn Nantgarw ac Abercynon mae'n debyg fod tafarnwyr yn cyflogi beirdd i drechu'r hen Fari, rhag gorfod rhoi diod rad i'r cwmni! Cawsom glywed rhai o benillion ymryson y Fari Lwyd gan Eleri a Delwyn.

Soniodd Wyn fel y bu rhai yn ne-ddwyrain Morgannwg ar y blaen gyda'r gwaith o gasglu'r hen ganeuon gwerin – Maria Jane Williams o Aberpergwm a'i *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* (1844) a Ieuan Ddu o Gwm Taf a'i *Caniedydd Cymreig* (1845), heb sôn am Iolo Morganwg, y casglwr cyntaf un efallai. Yna canodd Eleri 'Dacw 'nghariad i lawr yn y berllan': cofnodwyd y gân hon wrth i un o aelodau cynnar Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru ei chlywed yn cael ei chanu gan ryw Mrs David Evans o'r Eglwys Newydd yn ôl yn 1908, a hithau wedi'i chhlywed am y tro cyntaf yn Llangamarch yn 1828.

Mae tribannau Morgannwg yn enwog, a nifer ohonom yn cofio canu ac adrodd enghreifftiau ohonynt, megis 'Ym Mhontypridd mae 'nghariad', a ganwyd inni gan Delwyn. Yn sgil tanchwa ysbrydol y Diwygiad Methodistaidd, torrodd llawer allan i ganu mawl i Dduw a cherddi serch i'r Arglwydd Iesu Grist, ac yn ey mysg Thomas William Bethesda'r Fro, John Williams Sain Tathan a Dafydd William Llanbedr-y-fro – awdur yr emyn 'O! Dduw, rho im dy Ysbryd,/Dy Ysbryd ddaw â gwres', a ganodd Eleri i ni.

Daeth newid mawr arall i'r cwm gyda thwf y diwydiant haearn ac agor y pyllau glo. Tyrrai pobl i gymunedau Cymraeg Cwm Taf o bob rhan o Gymru – ac yn eu plith baledwyr, Brodor o Droed-y-rhiw yw Wyn James, a gwyddai'n iawn am wasg 'Jones & Co' yn y pentref hwnnw yn y ganrif ddiwethaf, a gyhoeddodd nifer fawr o daflenni yn cynnwys baledi ar amrywiaeth mawr o bynciau – o hanes Merthyr ar nos Sadwrn i'r frwydr yn erbyn y 'Zulus'!

Crwydrai baledwyr i ganu o gwmpas cymoedd y de, a byddent yn addasu'r caneuon yn ôl y lleoliad a'r amgylchiadau. Wrth ymweld â'r gogledd, âi 'Ffarwél fo i Langyfelach lon' (gan Siemsyn Twrbil o Drelái) yn 'Ffarwél fo i dre Caernarfon lon' neu 'Ffarwél i dref y Bala lon' – er mwyn cael y gogleddwyr i brynu'r taflenni.

Cawsom enghraifft o faled gan Delwyn, ac i gloi sgwrs hynod o ddiddorol, canodd Eleri gân gyfoes o Gwm Taf – 'Colli Iaith' gan Harri Webb. Diolch yn fawr i Wyn, Eleri ac Emyr James, Delwyn Siôn ac Eleri Davies am noson gampus.

Dyma gychwyn ardderchog i dymor newydd Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd. Yn y cyfarfod nesaf – ar nos Wener, 9 Tachwedd, am 7.30 – bydd Mrs Owenna Hopwood yn 'Hel Achau'. Byddwn yn cyfarfod yn festri Eglwys Bethel, gyferbyn ag eglwys y plwyf yng nghanol yr Eglwys Newydd – ond does dim rhaid i neb brofi mai yn y pentref y mae'n byw cyn y caiff ymuno â ni! Mae croeso cynnes i bawb. Dewch atom – byddwn yn falch iawn o'ch gweld!

**D Gwyn Jones**

# PLANT MEWN ANGEN

## Dydd Gwener Tachwedd 23

**Ydy, mae diwrnod Plant Mewn Angen ar y trothwy, ac unwaith eto bydd y wlad i gyd yn llawn gweithgareddau a'r gobaith eleni yw y bydd Cymru yn croesi'r miliwn.**

Fel arfer fe fydd pob math o adloniant yn mynd ymlaen yn y Ganolfan Ddarlledu yn Llandaf: personoliaethau'n taro i fewn, gwirfoddolwyr yn tywallt eu cyfraniadau i'r coffrau, bandiau, corau, grwpiau, consurwyr, dawnswyr – fe fyddan nhw i gyd yno.

Eleni bydd adloniant didor yn Gymraeg yn dod o'r Stiwdio, ac mae gwahoddiad i chi ymuno a'r gynulleidfa yno o 6.15pm ymlaen. Os am docyn ffoniwch Swyddfa Plant Mewn Angen ar Caerdydd 572888.

Os na allwch ddod i Landaf, gellwch fwynhau noson lawn o adloniant – o 6.00 tan wedi hanner nos ar Radio Cymru.


D I N E S Y D D

## TRWY'R POST

Os hoffech dderbyn eich copi personol o'r Dinesydd bob mis am y flwyddyn, yn rhad ac am ddim, llenwch y ffurflen yma a'i hanfon yn ôl i Detheridge Cyf, 93, Cowbridge Road East, Caerdydd CF1 9AF.

ENW ..................................................

CYFEIRIAD ..................................................

COD POST ..................................................

Amgaeaf siec am £4.00 i dalu am bostio deg rhifyn yn unig, yn daladwy i "Detheridge Cyf".

# DYDDIADUR Y GWEINIDOG

### DYDD SUL, 9 MEDI . . .

Fy nghyfle blynyddol i wasanaethu ddwywaith yn Saesneg – lan a lawr yr A470 pedair o weithiau i Eglwys y Bedyddwyr, Church St, Tredegar, Gwent. Ieuan Davies, arweinydd y gân, ac arweinydd Côr Meibion Tredegar gynt, yn fy holi am arwyddocad y dyddiad. Dim yn dod i gof. Roeddwn wedi cael sgwrs gydag ef yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni ac fe ddywedodd e y byddai'n dathlu ei benblwydd yn 74 oed ar y 9fed o Fedi. Sylwi fod 'na betrol rhad ar werth yn Asda, ger Dowlais ond yn wahanol i Asda, Coryton, yr Eglwys Newydd, dyw e ddim ar agor ar ddydd Sul! Howard Davies, mab ysgrifenyddes newydd Church St sy'n gweithio a byw yng Nghaerdydd, (siop nwyddau metel a garddio ger Parc-y-Rhath), yn chwarae'r organ bib yn oedfa'r hwyr gyda'i fedrusrwydd arferol. "Gewn ni ras nôl lawr i Gaerdydd," meddwn wrtho ar ddiwedd yr oedfa!

### DYDD MAWRTH, 11 MEDI . . .

Llythyr gwerthfawrogol oddi wrth I W J Llandudno, yn diolch i Eirian am ddyddiadur gwraig y gweinidog ar gyfer mis Awst. Sylwi iddo gymryd wythnos gyfan i gyrraedd er bod y côd post yn gywir arni. Defnyddio'r Amstrad i gwblhau hanes Noddfa, Ynysybwl ar gyfer dathliadau'r canmlwyddiant mis nesaf. Ond rhysut neu gilydd, llwyddo i wasgu allwedd anghywir a cholli gwerth awr o waith!

Dal y tren yn Coryton am 1.30. Fawr o deithwyr arno felly tasg hawdd oedd gweld lle roedd fy nhad eisoes yn eistedd. I ffwrdd â ni i ganol y ddinas – angladd Raymond Williams yn y Tabernacl am 2.30. Hugh Matthews yn llywyddu ac yn cyflwyno'r bregeth/teyrnged, er cof ac mewn diolchgarwch am wasanaeth ei weinidog. Deigryn neu ddau yn fy llygaid pan ddywedwyd fod RW wedi ysgrifennu llythyr olaf i'w deulu i'w calonogi, a'i ddarganfod pan ddaethant adref o'r ysbyty yn Llundain.

Wedi'r oedfa, i mewn i siop David Morgan, fel sawl un arall, i gael coffi ac yna manteisio ar y cyfle fy mod lawr yn y dref i brynu ychydig bethau gan gynnwys dyddiaduron ar gyfer 1991. Anrhefn llwyr yng ngorsaf trenau Heol-y-Frenhines – cannoedd o deithwyr ond diffyg trenau oherwydd gwaith atgyweirio signalau am dair wythnos. Digonedd o chwerthin ar y platfform wrth i'r ferch gyhoeddi dro ar ôl tro am o leiaf deg munud, os nad mwy, "the next train arriving at platform one is the Coryton . . ."

### DYDD MAWRTH, 25 MEDI . . .

I Abertawe unwaith eto ar gyfer y Pwyllgor Efengylu ar y cyd – adran Gymraeg a Saesneg. 13 yn bresennol a phawb heb law 2 yn Gymry Cymraeg. Offer cyfieithu ar gael i'w defnyddio ond Peter Richards (cyfieithydd) yn mwynhau bore a phrynhawn hamddenol gan fod y mwyafrif o'r brodyr Cymraeg a'r un chwaer yn eithaf bodlon i siarad yn Saesneg y rhan fwyaf o'r amser! Cytundeb cyffredinol fod angen swyddog hyfforddi arnom fel enwad, ond ar y llaw arall, nid pawb sydd am wahodd Americanwr wedi dysgu Cymraeg i gyflawni'r gwaith!

Lan i Ynysybwl wedi gwylio Pobol y Cwm. Cyfarfod misol y chwiorydd ar fin gorffen. Tair ohonynt, Iris, Johanna, Clarice yn dod gyda fi i 34 Crawshaw St i gydymdeimlo gydag Ada Griffiths – ei gŵr Idwal, 85 oed, wedi marw ddydd Gwener diwethaf. Trist, mae'n rhaid yw gorfod dweud ffarwel wedi dros 52 blynedd o fywyd priodasol.

Cloch y drws ffrynt yn canu am 10.40 y nos. Braidd yn hwyr i dderbyn ymwelwyr, meddyliais! Ond Alun Creunant Davies, Aberystwyth oedd yma gyda rhifyn Hydref-Rhagfyr yn y gyfres 'O Ddydd i Ddydd'.

**Gwilym E Davies**

# CYMDEITHAS Y DYSGWYR

### DE MORGANNWG

Cynhaliwyd cyfarfod cynta'r tymor ar nos Wener y 12fed o Hydref ar ffurf Noson o Groeso yng Nghanolfan Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Soffia. Daeth dros hanner cant ynghyd i fwynhau noson o ganu, cwis a bingo. Arweinwyd y canu gan Gwenno Dafydd a Derec Brown. Bydd yr ail gyfarfod ar Nos Iau y 15fed o Dachwedd am 8 o'r gloch pan cynhelir Twmpath Dawns yn y clwb Trydan ym Mhontcanna ac mae croeso i Ddysgwyr ymuno yn yr hwyl. Cynhelir Parti Nadolig CYD ar nos Iau y 6ed o Ragfyr am 8 o'r gloch yng Nghlwb Ifor Bach. Swyddogion CYD De Morgannwg am 90/91 ydy Gwilym Roberts Cadeirydd, Tim Pierce Is Gadeirydd, Paul Jeffries Ysgrifennydd a Jenni Jones Annetts Trysorydd. Am ragor o fanylion am y cyfarfodydd gellir ffonio Ysgrifennydd (Caerdydd 625976).

### CYLCH MEITHRIN RHIWBEINA

Mae 19 o ddisgyblion yn mynychu'r Cylch y tymor hwn dan arweiniad Carol Townsend. Mae'r Cylch yn brysur iawn yn codi arian i sicrhau na fydd yn y coch yn ystod y flwyddyn ac mae croeso i unrhyw un gynorthwydr achos drwy ddod ar daith fws i Gaerfaddon ar Ddydd Sadwrn y 24 o Dachwedd (y cyntaf i'r felin fydd hi felly ffoniwch Caerdydd 693254 os ydych eisiau lle) Trefnir y daith hon ar y cyd rhwng Cylch Rhiwbeina a Chylch Heol Llangrannog, Llanishen. Os ydych yn hoffi dawnsio gwerin beth am ddod i Dwmpath Dawns a gynhelir yn Neuadd Eglwys yr Holl Saint oddiar Maes y Deri ar nos Sadwrn y 17 o Dachwedd am wyth o'r gloch neu beth am ddod i Fore Coffi Nadoligaidd y Cylch fore Sadwrn y 1af o Ragfyr yn Neuadd Capel Bethel Maes y Deri.

### CYFARFOD BLYNYDDOL MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Eleni cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn nhre Conwy yng Ngwynedd. Anerchwyd yn y pnawn gan Syr Wyn Roberts Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn ystod ei sylwadau rhoddodd deyrnged haeddianol i waith y Mudiad dros y blynyddoedd. Daeth cynrychiolwyr o bob cwr o Gymru a chroesawyd ymwelwyr o'r Alban a Lesotto.

Yn ystod cyfarfod y bore bu trafod ar newid yr enw am Gylch Mam a'i Phlentyn i Gylch "Ti a Fi". Felly cofiwch o hyn allan y Cylch Ti a Fi ydy'r teitl swyddogol am Gylch Mam a'i Phlentyn. Cynhelir Cyfarfod Blynyddol 1991 yn ninas Abertawe.

# CYMORTH

Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn cefnogi ymdrechion nifer o reini y ddinas i ddysgu Cymraeg ar gwrs Wlpan y Brifysgol trwy ddarparu Meithrinfa am 4 bore yr wythnos yn 38, Park Place. Mae'r cynllun yn gweithio'n dda a rhai o'r myfyrwyr yn llwyddo i ddysgu'r iaith a dilyn y cwrs meithrin yr un pryd er mwyn bod yn Arweinyddion Cylchoedd yn y pendraw – un o brif nodau'r Mudiad a rhaid cefnogi'r ymdrechion gwerthfawr hyn. OND, yn anffodus, mae prinder staff yn y Feithrinfa yn creu anhawsterau FELLY, tybed a oes unrhyw ddarllenwr (neu ffrind o ddarllenwr) â diddordeb mewn

a) *helpu* yn y Feithrin
b) bod yn *drefnydd* y Feithrinfa

Dewch yn llu a'ch ymholiadau i Jo Knell – Swyddog Datblygu, MYM, Caerdydd 490315.

# BAFTA CYMRU

**Penodwyd Linda M Leach, cyn Ddirprwy Weinyddydd BAFTA Cymru, yn Weinyddydd newydd y sefydliad celfyddydol byd-enwog yng Nghymru.**

Yn ogystal â chadw llygad barcud ar 150 o aelodau BAFTA led led Cymru o'r brif swyddfa yng nghanolfan gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd, un o brif dasgau Linda fydd helpu i drefnu seremoni Wobrwyon newydd ar gyfer Ffilm a Theledu Cymru erbyn yr Hydref 1991, a bod o gymorth i baratoi ar gyfer Gwobrwyon Crefft BAFTA a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod noson arbennig i'w chynnal am y tro cyntaf erioed yng Nghymru fis Mawrth nesaf.

Yn hanu o Gaerdydd, dysgodd Linda, sy'n 31 oed, Gymraeg ddeng mlynedd yn ôl, cyn dilyn gyrfa ym maes cysylltiadau cyhoeddus gydag HTV Cymru, BBC Cymru a chwmni Strata'Matrix.



# SÊR YN SALEM

Unwaith eto fe fydd 'na sêr yn disgleirio yn Salem. Prin bod angen atgoffa Cymry Caerdydd bod Capel Salem Canton yn cofio am argyfwng newyn Ethiopia 1985 drwy danlinellu'n flynyddol y galw am gymorth parhaus i'r di-freintiedig. Mae'r nos Sadwrn cyntaf yn Rhagfyr yn noson arbennig iawn am mai bryd hynny y daw sêr y ddinas yn gantorion ac ynadwyr, at ei gilydd yn y Capel i gyfrannu eu doniau at yr achos – a phawb, yn gynulleidfa a pherfformwyr yn ymuno mewn ambell i garol i roi cychwyniad ardderchog i ddathliadau'r Nadolig.

Eleni eto cytunodd Arfon Haines Davies i gyflwyno'r artisiaid ac yntau, wrth gwrs yn cyfrannu cymaint a neb i lwyddiant y noson gyda'i hiwmor a'i agosatrwydd. Ymhlith y diddanwyr fydd Parti Plant Ysgol Coed y Gof, y baswr Huw Morgan, Dafydd Idris a'i faledi – heb anghofio'r ddau fu'n gymaint o lwyddiant llynedd, Rhian Morgan a Phil Harris.

Gobeithio bydd pob sedd yn y Capel yn llawn. Cofiwch y dyddiad – NOS SADWRN, RHAGFYR 1af am 7.30. Pris y tocynnau £2.50 a 50c i blant. Dewch i gefnogi'r achos. Dewch i fwynhau noson o gan a hwyl.


CWMNI THEATR GWYNEDD
yn cyflwyno



LENI
gan
DEWI WYN WILLIAMS
cyfarwyddwr
GRAHAM LAKER
cynllunydd
JOHN JENKINS

Theatr y Sherman, Caerdydd
Nos Lun - nos Fawrth, 19-20 Tachwedd, 7.30 p.m.
(0222) 230451

# MIREINDER MIRANDA

Chwim wrth symud, chwimach wrth bar-ablu a chwimach fyth ei meddwl – dyna hi y Dr Miranda Green. Er iddi gael ei geni yn Llundain fe ddaeth i Gymru i ddilyn ei chwrs coleg yn Adran Archaeoleg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Yno cyfarfu â Steffan, a borai yn yr un maes, a phriodi. Maen nhw wedi ymgartrefu ym Mhenarth ac erbyn hyn mae'r ddau'n amlwg yn eu meysydd arbenigol. Caiff Miranda ei chyfri'n ysgolhaig o fri ym maes crefydd y cyfnod Celtaidd a gwelwyd hyn yn eglur ddigon yn ddiweddar pan draddododd ddarlith ar y pwnc yn Llundain. Mae Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn cynnal cyfres o ddarlithiau o bwys yn yr Academi Brydeinig a gwahoddwyd Miranda i ymddangos yn y lle hwn sy'n hybu ac yn noddi ysgolheictod o bob math.

Cawsom ymdriniaeth feistrolgar ganddi ar y grefydd Geltaidd. Wrth bwyso ar dystiolaeth archaeolegol a mytholegol llwyddodd i ddangos beth oedd prif nodweddion y grefydd honno.

Os oedd y ddarlith ffurfiol yn feistrolgar nid llai felly oedd y drafodaeth a ddilynodd. Dangosai ei hatebion byrfyfyr i amrywiaeth o gwestiynau treiddgar gymaint ei gwybodaeth o'r maes.

Bellach, mae hi'n awdures o bwys yn ei phriod faes ac mae hi'n cael ei chomisiynu gan rai o brif gyhoeddwyr y wlad megis Routledge a Thames and Hudson. Ar hyn o bryd mae ganddi fwy nag un prosiect gyhoeddi ar waith.


Hi hefyd sydd wedi trefnu'r gyfres ddarlithiau sy'n digwydd yng Nghymru y flwyddyn nesaf fel rhan o Celtica. Mae 1991 yn flwyddyn y gwareiddiad Celtaidd ac mae'r dathlu'n digwydd ledled Ewrop. Mae gan Gymru le amlwg yn hyn gydag arddangosfa fawr o'r pwys mwyaf yn yr Amgueddfa Genedlaethol. Mae gofal am yr arddangosfa'n disgyn ar ysgwyddau gŵr Miranda, Steffan, sy'n guradur yr Adran Archaeolog. Mae'r flwyddyn nesaf yn addo'n dda i gyflwyno i'r cyhoedd ddarlun dilys o'n treftadaeth Geltaidd. Mae'n dda cael deuawd fel Miranda a Steffan yn y llif.

Ond nid 'academia' yn unig sy'n cyfri. Mae ganddynt ddwy gath, hynod ddeallus wrth gwrs: ma Miranda'n arbennig o hoff o ganu ac mae hi'n aelod o ddau gôr cymysg. Mae hi a Steffan yn dwli ar fwyd Tseineaidd ac yn manteisio ar bob cyfle posib i fynd am bryd yn un o dai bwyta'r wlad honno sydd yn britho Caerdydd.

Gan fod Miranda'n gymaint awdurdod yn ei maes y peth rhesymegol iddi oedd dod i'r afael a iaith ein mytholeg Geltaidd ni. Gan hynny mae hi wrthi'n ddygn yn dysgu Cymraeg.

**Wynne Lloyd**

# Y Casgliad Brenhinol
## *Paentiadau o Gastell Windsor*



**Mae campweithiau gan Johann Zoffany, Thomas Gainsborough, George Stubbs a Canaletto ymhlith y 60 o baentiadau o'r Casgliad Brenhinol a gaiff eu harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn y prif adeilad ym Mharc Cathays, Caerdydd, o 2 Tachwedd.**

Mae Ei Mawrhydi Y Frenhines yn raslon wedi caniatáu i'r Amgueddfa ddangos y paentiadau mewn arddangosfa bwysig a fydd i'w gweld tan 24 Chwefror 1990.

Hwn fydd y tro cyntaf i'r holl luniau gael eu harddangos gyda'i gilydd i'r cyhoedd eu mwynhau. Daw llawer ohonynt o'r Coridor Mawr yng Nghastell Windsor, rhan nad yw ar agor i'r cyhoedd. Mae grwpiau llai o'r lluniau wedi eu dangos mewn amgueddfeydd rhanbarthol, a chynhwyswyd nifer o dirluniau gan Canaletto mewn arddangosfa bwysig o waith yr arlunydd yn Efrog Newydd y llynedd.

Bydd arddangos y paentiadau hyn yng Nghaerdydd yn nodi uchafbwynt y rhan gyntaf o bolisi o fenthyca dros dro gan Ei Mawrhydi Y Frenhines i amrywiol sefydliadau yn ystod rhaglen helaeth o waith adnewyddu yng Nghastell Windsor.

Casglwyd y mwyafrif o'r lluniau yn yr arddangosfa naill ai gan George III, neu ei fab George IV, a oedd un o noddwyr mawr ei ddydd. Mae'r arddangosfa – yr un orau o weithiau'r hen feistri i ddod i Gymru ers yn agos i 30 mlynedd – wedi ei noddi'n hael iawn gan Welsh Water PLC ar y cyd â'u cynghorwyr Allen & Overy, Burson-Marsteller Financial, County NatWest a Kleinwort Benson Securities.

Meddai Mr John Elfed Jones, Cadeirydd Welsh Water PLC, "Rydyn ni'n falch cael cefnogi arddangosfa mor wych o luniau nad ydynt i'w gweld yn aml iawn, a thrwy wneud hynny hybu delwedd Cymru a'i phrifddinas fel canolfan ragoriaeth artistig a diwylliannol."

Meddai Alistair Wilson, Cyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru, "Mae'r Amgueddfa'n ddiolchgar i'w Mawrhydi Y Frenhines am ganiatáu i'r paentiadau gael eu harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae'r arddangosfa'n gyfle unigryw i weld grŵp o baentiadau o bwys o un o'r casgliadau preifat gorau yn y Cymru gyda chymorth nawdd sylweddol gan un o gwmniau mwyaf Cymru a'i gynghorwyr."

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

# Ymateb y Cyhoedd

Datgelodd y ffigurau ymweld am yr hanner blwyddyn diwethaf (Ebrill i Fedi) fod yna ymateb calonogol wedi bod ar ran y cyhoedd i'r datblygiadau newydd a chyffrous yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Bu cyfanswm o 480,000 o ymwelwyr yn ymweld â changhennau'r Amgueddfa, sef cynnydd o 52% dros yr un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf.

Er bod cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r holl ganghennau, bu'r cynnydd mwyaf ym Mharc Cathays, lle daeth dros 156,000 o ymwelwyr i weld y prif atyniadau newydd sydd gan y Prif Adeilad i'w gynnig – sef pum gwaith yn fwy nag a ddaeth yn ystod y chwe mis hyn y llynedd.

Cafwyd dechrau da i'r ymgyrch i hybu nifer yr ymwelwyr gydag agor arddangosfa ar **Y Crwbanod Lledregefn – Cewri'r Môr mewn Perygl**, a oedd yn dangos y crwban môr mwyaf yn y byd. Yn dilyn y llwyddiant hwn ail-agorwyd **Orielau Celf yr Asgell Ddwyreiniol**, a gawsai eu hadnewyddu'n sylweddol er mwyn arddangos casgliadau celf gwych yr Amgueddfa ac yn fuan wedyn agorwyd yr **Oriel Darnau Arian a Medalau**.

Denodd yr arddangosfa ysblennydd ar y Dinosoriaid, **Dinosoriaid – Atyniad Enfawr**, a ddaeth i ben y penwythnos diwethaf, nifer helaeth o ymwelwyr i Oriel Arddangosfeydd Dros Dro eang yr Amgueddfa. O'r 2il o Dachwedd hyd y 24ain o Chwefror y flwyddyn nesaf bydd arddangosfa hynod, sef **Peintiadau o'r Casgliad Brenhinol**, sydd fel rheol yn cael ey cadw yn ystafelloedd preifat y Frenhines yng Nghastell Windsor, yn cael ei chynnal yma, ac yn dilyn hyn bydd arddangosfa sylweddol ar **Y Celtiaid yng Nghymru**. O fis Rhagfyr 1991 Amgueddfa Genedlaethol Cymru fydd yr unig le yn y Deyrnas Unedig lle y gellir gweld arddangosfa drawiadol o Oes y Iâ a fydd yn portreadu **Mamothiaid o Rwsia**.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymwelwyr yn holl ganghennau Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Mae nifer yr ymwelwyr ar gyfer **Amgueddfa Werin Cymru** am yr un cyfnod o chwe mis 9,729 yn uwch na'r ffigur am y llynedd, sef 200,015. Bu cynnydd hefyd yn **Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru**, gyda 25,172 o ymwelwyr o'i gymharu â 19,867 am y llynedd. Cafodd yr atyniad newydd, **Ynni Cymru**, yn Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis ddechreuad calonogol gyda 42,662 o ymwelwyr yn ystod yr hanner blwyddyn cyntaf.

Bu cynnydd hefyd yn nifer yr ymwelwayr i'r canghennau llai, gan gynnwys yr **Amgueddfa Lengol Rufeinig** yng Nghaerllion, **Amgueddfa Caer Rufeinig Segontium** yng Nghaernafon, Gwynedd, **Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru**, Dre-fach Felindre, Dyfed ac **Oriel Graham Sutherland** yng Nghastell Pictwn, Dyfed, a gafodd ei hail-agor eleni o dan reolaeth Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

# BETHEL PENARTH

Bore Sadwrn Hydref 13 fe welwyd llu o aelodau a chyfeillion Capel Bethel yn ymgynnull yn y Paget Rooms, Penarth ar achlysur y Bore Coffi Blynyddol. Trwy weithgarwch dygn yr hen, yr ifanc a'r canol oed codwyd swm sylweddol o arian tuag at y gwaith o adnewyddu'r capel sy'n mynd rhagddo'n hwylus ar hyn o bryd. Diolchwyd i bawb am eu llafur a'u cydweithrediad yn y fentr flynyddol gan y Gweinidog y Parch Meurwyn Williams.

Trist yw cofnodi marwolaeth cyn drysorydd y Capel Mrs Gwenllian Davies ar ôl cystudd hir a chaled. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu galar.

## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Meinir, merch Wynn a Nia Vittle, Llanishen, Caerdydd ag Eurig, mab Basil a Myra James, Peniel, Caerfyrddin ar eu dyweddiad.

# I Gyfarch Mr Tom Evans

Dy' Sul, dan bulpud Salem
Gwas selog yw, a sawl gem
O waddol ei gyhoeddi
'Gyfoethoga'n hoedfa ni.
A gwres ei groeso grasol
A'n dena ni yma 'nôl.

Dod â'i fflam o Gwmaman
At ei waith 'da'r Frigâd Dân –
Dwyn dawn saer coed i'n dinas.
Yna 'mlaen â'i grefft ym mhlas
Sain Ffagan, i greu hanes
Dod â'n doe a'n hechdoe'n nes.

Miwsic meistri cerdd, a mawl
Cyhyrog ganu corawl,
Gweddi o'r frest, a thestun,
Profi cyd-dorri cytûn,
A rydd i'w grefydd y gras
'Wna ei Salem yn solas.

**T James Jones**

*Darllenwyd y gerdd gan yr awdur mewn cyfarfod arbennig a gynhalwayd yng Nghapel Salem ar Hydref 17eg i dalu teyrnged i Mr Tom Evans sydd eleni yn dathlu 40 mlynedd o wasanaeth fel blaenor yn y Capel.*

# DYCHWELYD I GYMRU



Mae Arthur Dafis wedi dychwelyd o Sbaen i weithio i Strata'Matrix y cwmni cysylltiadau cyhoeddus, dylunio a hysbysebu yn Aberystwyth a Chaerdydd.

Treuliodd Arthur y flwyddyn ddiwethaf yn dysgu Saesneg i nifer o ŵyr busnes amlwg ym Madrid. Cyn hynny bu'n gweithio i Strata'Matrix yn swyddfa'r cwnni yn Aberystwyth ond mae nawr yn ail ymuno a'r cwmni yn swyddfa Caerdydd.

"Mae'n braf bod n'ôl yng Nghymru a chael cyfle i gyfrannu i ddatblygiad Strata'Matrix yng Nghaerdydd. Er mod i wedi dysgu Sbaeneg rwy'n dal i allu siarad Cymraeg a Saesneg" meddai.

Brodor o Dalgarreg, Dyfed yw Arthur ac fe raddiodd mewn Astudiaethau Busnes ym Mholitechneg Cymru yn Nhrefforest.

# YMGYRCH AM YSGOL NEWYDD YN DECHRAU

**Rwy'n siwr mai un o'r digwyddiade mwya' calonogol yn y ddinas y mis diwetha' 'ma oedd y cyfarfod yn Neuadd Gymuned y Rhâth i drafod yr angen am seithfed ysgol Gymraeg i wasanaethu ardal canol a dwyrain Caerdydd. Efallai fydd y rhai ohonoch chi glywodd fwletin newyddion Radio Cymru drannoeth y cyfarfod yn rhyfeddu at y gair 'calonogol', gan i'r bwletin lwyddo'n ddeheuig iawn i gyfleu naws o gyhuddo ac anghytuno ymhlith y rhieni yn y cyfarfod. Nid felly oedd hi o gwbwl, ac mae'n dda cael y cyfle i unioni'r camargraff ar dudalenne'r Dinesydd, o leiaf.**

Pan drefnodd Rhanbarth Caerdydd MYM y cyfarfod, y bwriad oedd cyflwyno gwybodaeth i rieni a chael eu barn ar y mater hwn. Felly gofynwyd i Owen John Thomas a Meical Jones annerch y cyfarfod – Owen John fel rhiant i ddau blentyn bach ac sy'n byw yn yr ardal, Meical yn cynrychioli Rhieni Dros Addysg Gymraeg, a oedd yn cydgynnal y cyfarfod.

'Doedd gyda ni ddim syniad faint o bobol i ddisgwyl – hanner dwsin? dwsin? pymtheg? Byddem wedi bod yn hapus â phymtheg. Ond yn lle hynny, dechreuodd y stafell lenwi a llenwi, nes bod dros drigain yno. Roedd yr ymateb yn syfrdanol – ac yn brawf o'r diddordeb a'r consarn am y mater yma.

Roedd y cyfarfod yn un hwyliog a diddorol. Dangosodd anerchiad Owen John ôl gwybodaeth drylwyr o ystadegau ynglyn ag addysg Gymraeg dros y ddinas – niferoedd, ystafelloedd gwag, arian – ac roedd hyn i gyd yn sylfaen gref i'w ddadl ganolog e. Fe bwysleisiodd y dylid ystyried dargyfeirio arian sylweddol (£2 filiwn), sydd wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiadau i ehangu ysgolion ar un ochor y ddinas, draw i ddwyrain y ddinas er mwyn rhannu adnoddau yn well a chael dosbarthiad daearyddol tecach o ysgolion. Roedd yn syndod i lawer i weld ar y map a baratowyd, cymaint y mae'r ysgolion Cymraeg wedi eu clystyrru ar un ochor i'r ddinas, a pha mor enfawr yw'r ardal wag ar yr ochor arall.

Rhoddodd Meical Jones gefndir datblygiad addysg Gymraeg yn y ddinas – a daeth yn amlwg nad rhywbeth newydd yw'r cnewyllyn o blant yn ardal y Rhâth. Mae nhw wedi bod yna ar hyd yr adeg, ond nad oes ysgol erioed wedi ei darparu ar eu cyfer yn eu cymuned. Roedd y cefndir hwn yn bwysig am fod yna lawer yn y cyfarfod – rhieni di-Gymraeg – oedd yn gwybod y nesa' peth i ddim am yr ysgolion eraill, eu lleoliad a'u maint.

Roeddem yn ffodus i gael cwmni Mr Alun Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysg, yn y cyfarfod. Yr oedd wedi dod ar yr amod y cai wrando'n unig, ond fe gododd ar ei draed i ddweud gair. Eglurodd resymau'r Awdurdod dros benderfynu ehangu Coed y Gof, eglurodd bod yr Awdurdod yn dal i edrych ar y sefyllfa yn ardal y Rhâth a'i fod e'n sylweddoli bod yna alw, ac yn cydymdeimlo â'r dyhead i gael ysgolion mwy cymunedol eu naws. Roedd ei gyfraniad e yn un gwerthfawr – nid dim ond oherwydd yr hyn ddywedodd e, ond am fod pobol wedi cael cyfle i *weld* un o uchel-swyddogion yr Awdurdod yn dangos diddordeb.

Cafodd pobol gyfle wedyn i drafod, holi cwestiyne, dweud eu barn, ac roedd yr awyrgylch yn un gefnogol iawn i'r syniad o geisio ysgol i'r ardal. Nododd sawl un y dylai ysgol fod yn ymestyniad o fywyd cymdeithasol y plant, ac yn rhan o'u bywyd cymdeithasol nhw ac mai un ysgol i wasanaethu'r 'gymuned' hon oedd ei hangen. Cafodd pobol gyfle i anghytuno hefyd; roedd y cyfarfod yn un agored i ddarganfod beth oedd teimladau rhieni yn wyneb y wybodaeth a gyflwynwyd iddyn nhw. Ond 'doedd 'na ddim anghytuno, felly fe godwyd gwaeithgor er mwyn cynnal momentwm y cyfarfod. Bydd angen cadw fflam ynghynn, arwain ymgyrch o bwyso cyson, i lobïo a rhoi cyhoeddusrwydd yn y man – ac roedd hi'n bleser cael gwirfoddolwyr yn cynnig 'u henwe heb unrhyw oedi. A rhagor ar y ffôn drannoeth – gwych!

Efallai *fod* 'na frwydro wedi bod dros ysgol yn yr ardal yma o'r blaen, ac ry'n ni'n gwybod na fu llwyddiant bryd hynny. Ond mae nawr yn gyfnod gwahanol, mae 'na dô arall o bobol yn fodlon rhoi cynnig arni, mae 'na dwf amlwg yn addysg feithrin yr ardal – ac mae 'na deimlad cryf iawn na ddylai'r ardal hon golli ysgol Gymraeg y tro nesaf. Gobeithio bydd y teimlad o undod pwrpasol oedd yn y cyfarfod hwn yn para hyd nes cawn y maen i'r wal.

Os oes 'na unrhyw rai o ddarllenwyr y Dinesydd am gysylltu â'r gweithgor, dyma'u henwau:

| | |
|---|---|
| Hywel Jones | Alan Young |
| Rob Messenger | Mike McCandless |
| Hywel Pennar | Ceri Hughes |
| Isobel Jones | Mike Baker |

**Cathryn Gwynn**

# Cymdeithas Gymraeg Dinas Powys a'r Cylch

Pob Hwyl i'r Chwaer Eluned Williams, Pennaeth "Ardwyn", Cartref Cenedlaethol y Plant ar Ffordd y Tyrpeg, wrth iddi ymadael â'r pentref ar ôl cyfnod o dros ugain mlynedd. Dymunwn yn dda iddi yn ei chartref yn Nolgellau, a gobeithiwn weld ffrwyth ei llafur yn ymddangos eto mewn maes gwahanol o'i gwaith gyda plant mewn angen dan nawdd yr NCH. Efallai y cawsoch y pleser yn ddiweddar o weld Eluned yn ymddangos ar y teledu gyda Michael Aspel – hi oedd testun "This is Your Life". Cafwyd canmoliaeth uchel i'r rhaglen a llifodd y teyrngedau a'r tystiolaethau am ei gwasanaeth diflino a'i llafur cariad i mewn o bob cyfeiriad. Gweithiodd Eluned yn ddyfal a distraw ar hyd y blynyddoedd. Fe welwn ni ei cholled yn y pentref.

Llawenydd yw cofnodi llwyddiant mawr ein Cinio Dathlu Chwarter Canrif. Aeth yr holl drefniadau 'mlaen yn hwylus dros ben yng nghwmni'n Gwestai Griff Thomas – un o sylfaenwyr y Gymdeithas. Huliwyd y byrddai'n ddel dros ben ac 'roedd y bwyd a'r gwin yn arbennig o dda. Eisteddodd rhyw gant ohonom i lawr i'r wledd yn Neuadd Sant Pedr ar ôl gwasanaeth byr o fawl a diolch yng ngofal ein Llywydd Mr Rowland Owen a'n Parchedig Ganghellor James Keane. Diolch calon i holl weithwyr y Pwyllgor am wneud y trefniadau i gyd ar gyfer yr ŵyl ac i'n Cadeirydd Mrs Owena Hopwood am Gadeirio'r noson mor ddeheug. Rhaid cyfeirio'n arbennig at ein trysorydd Mr Alun Roberts a ysgwyddodd y baich ariannol ac i Mrs Moyra Owen a lafuriodd yn ddiflino i sicrhau fod popeth yn iawn ar y Noson Fawr. 'Roedd canmoliaeth yn cyrraedd o bob cwr am noson gofiadwy yn ein hanes.

Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i'n Rheithor, y Parchedig Ganghellor James Keane. Bu'n wael yn ystod y misoedd a aeth heibio ond braf yw ei weld o gwmpas y pentref unwaith eto. Diolch iddo am gymryd rhan yn y gwasanaeth a rhagflaenodd Cinio Dathlu Chwarter Canrif ein Cymdeithas Gymraeg.

Braf yw gweld y Dr Tom a Mrs Margaret Parry nôl yn ein plith ar ôl iddyn nhw gael damwain difrifol lawr yn Alsace Lorraine. Mae'r ddau yn dal i ddioddef effaith sioc a thriniaeth lawfeddygol yn achos Margaret. Pob dymuniad da i'r ddau.

# Hwyl yn Hwngari – Nantgarw ar Daith

**Curo dwylo rhythmig yn galw am fwy – a mwy! Gwres llethol – 95 yn y cysgod! Ond yn fwy na dim, gwres y croeso. Dyna'r pethau y bydd pob un aelod o Ddawnswyr Nantgarw yn gofio am y trip gawson ni i Hwngari fis Awst eleni.**

Wedi ennill yn Eisteddfod Llangollen y llynedd y daeth y gwahoddiad i ni i ymweld a Hwngari. Wedyn bu'r trefnu, yr ymarfer, y cynnal cyngherddau i helpu talu am y trip a'r gwnio diddiwedd i wneud gwisgoedd newydd addas ar gyfer taith haf. Wedi'r cyfan 'doedd neb eisiau dawnsio mewn brethyn cartref yng ngwres yr haul! Buom yn lwcus i ddenu arian o sawl ffynhonnell ond yn arbennig diolchwn am nawdd "Magyar Wood Enterprises", cwmni o Gymru sy'n delio yn unig a busnes yn Hwngari.



O'r diwedd wedi wythnos brysur yn Eisteddfod Cwm Rhymni i'r rhan fwyaf ohonom daeth y diwrnod mawr a hedfan allan o Heathrow. Ond, roedd aelod neu ddau o'r cwmni wedi cychwyn yn gynt! Pam, medda chi? – 'Gwylia bach ychwanegol? Nage wir – mynd a bws y cwmni draws gwlad i'n cyfarfod ni ym Mwdapest. Roedd pawb yn poeni na fyddai byth yn gallu gwneud y fath daith – wedi'r cwbwl ma'n dechrau mynd i oed nawr! Ond pan gyrhaeddon ni Bwdapest dyna lle'r oedd y bws piws a du gyda "Dawnswyr Nantgarw" ar ei hochor a Richard yn gwenu'n braf wrth y llyw i'n croesawu! Yno hefyd roedd Marta Lindop oedd yn trefnu'r daith i ni ac yn wynebu'r dasg o gadw'r criw anystywallt mewn trefn.

Buom yn lwcus i gael gweld cymaint o'r wlad mewn cwta wythnos gan aros tair noson yr un yn Siofok ac yn Szeged ac un noson ym Mwdapest. Mae Siofok ar lan Llyn Balaton ac mewn ardal wyliau boblogaidd iawn tra bod Szeged yn ddinas llawer mwy hynafol yn y de yn agos i'r border gyda Iwgoslafia. Cawsom gyfle i weld gryn dipyn ar y wlad ac i grwydro'r trefi. Wnaiff yr un ohonom anghofio ein golwg gyntaf ar y Danube o ben hen dŵr gwarchod nac ychwaith cael mynd i lawr i seler win oedd yn fendigedig o oer ar ôl yr haul crasboeth a blasu'r gwin yn syth o'r casgenni mawr pren. Ond y profiadau mwyaf ysgytwol oedd y cyngherddau y buom yn eu cynnal mewn gwestai mawr ac yn yr awyr agored led led y wlad. 'Roeddem yn eithaf nerfus cyn y cyngerdd cyntaf yn Siofok, ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl. Beth fyddai ymateb y bobol hyn i'n dawnsio gwerin a'n cerddoriaeth werin ni? Wedi'r cwbwl nid yw at ddant pawb yng Nghymru – mae gen i ambell i ffrind sy'n meddwl fy mod i yn hollol benwan "bonkers" i ymwneud a'r fath beth!! Ond nid felly yr Hwngariaid – welsom ni erioed y ffasiwn werthfawrogi! O'r ddawns gyntaf bron roedd y curo dwylo rythmig yn cychwyn yn gofyn am fwy a mwy o hyd. Roedd y clocsio yn mynd i lawr fel bom wrth gwrs ond 'roedd yn braf teimlo eu gwerthfawrogiad o osgeiddrwydd tawel "Meillionen" hefyd. Caent lond gwlad tonau hyfryd Bethan ar y delyn. Erbyn i ni gyrraedd y diwrnod olaf yn dawnsio mewn sgwar braf yng nghanol Bwdapest 'roeddem yn gwybod y byddai'r croeso yn dwymgalon. 'Doeddem ni ddim eisiau cychwyn am adref ond mynd oedd raid – wedi'r cyfan 'roedd gennym gyngerdd i'w wneud yn Llandrindod ar y nos Fercher!

Nawr 'rydym wedi cychwyn ar dymor newydd o weithgaredd ac yn paratoi i fynd i gystadlaeth pencampwriaeth y byd yn Majorca y Pasg nesa. Os oes unrhywun yn gwybod am gwmni fyddai yn hoffi ein noddi rhowch wybod rhag blaen! 'Rydym hefyd wrth gwrs yn ceisio gwneud hynny a allwn o gyngherddau i godi arian i'r fenter. Falle fod yn bryd i fwy o Gymry gael mwynhau yr hyn 'roedd yr Hwngariaid yn ei werthfawrogi gymaint!



## LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Rhodri a Briony Jones, Hwlffordd, ar enedigaeth Elin Elisabeth – chwaer fach i Jack Lloyd, ac wyres i Selwyn a Margaret Jones, Cyncoed. A Gill ac Eric Lloyd, Chesham Bois.

Croeso Mawr i'r Anwylyd Fach!

## PENODIAD

Llongyfarchiadau i Mr Peter Davies ar gael ei benodi'n Brif Athro Ysgol Gymraeg Treganna. Brodor o Llandeusant, a bu'n dysgu yn Henffordd cyn dychwelyd i Gaerdydd rhyw ddwy flynedd yn ôl i ymgartrefu ym Mhenarth.

## AR GYFER LLYFRAU O GYMRU

Heol Tŷ'r Brodyr
Caerdydd, CF1 4AA
*Ger y Theatr Newydd*

**ORIEL**

**Ar agor chwe dydd yr wythnos**
**9.00-5.30**
**Agor yn hwyr ar gyfer siopa**
**Nadolig tan 8.00pm**

**Dydd Iau**
**Tachwedd 15**
**Dydd Iau**
**Tachwedd 22**
**Dydd Gwener**
**Tachwedd 30**
**Dydd Iau**
**Rhagfyr 6**
**Dydd Iau**
**Rhagfyr 13**
**Dydd Iau**
**Rhagfyr 20**




Ar gau 25-27 Rhagfyr, 1990

AROLYGYDD YSGOLION, AWDUR, ATHRO, HANESYDD, BROGARWR, GWLEIDYDD, CYHOEDDWR......................

# O'R DIWEDD !

## Y GWIR am ARWR CENEDL

yn

# O.M.

**Ffilm gyntaf**
**FFILM CYMRU**

DANGOSIAD:
CANOLFAN GELFYDDYDAU
CHAPTER, CAERDYDD
6 a 7 RHAGFYR 1990

TOCYNNAU:
OEDOLION £2.50
MYFYRWYR £1.75
PENSIYNWYR A PHLANT £1.00

am 6.15 o'r gloch

**ELW I'R MUDIAD YSGOLION MEITHRIN**

MOVING BEING

DALIER SYLW

Y CWMNI

YN
ST STEPHENS THEATRE SPACE
WEST BUTE ST,
Y DOCIAU

SWYDDFA DOCYNNAU CAERDYDD
498885

## MAMIAITH/ MOTHERTONGUE

TYMOR SY'N CYNNWYS TRI CYNHYRCHIAD SYDD, TRWY ARDDULLIAU AMRYWIOL, YN TRAFOD IAITH, CYFREITHIAD A HUNANIAITH DIWYLLIANNOL, CWESTIYNAU SYDD WRTH WRAIDD THEATR YNG NGHYMRU

## WEDI KASPAR

**7-17 TACHWEDD – 8.00yh**

## LARGO DESOLATO

**gan VÁCLAV HAVEL**

**21 TACHWEDD-1 RHAGFYR**
**8.00yh**

## THE MYTH OF MICHAEL RODERICK

**gan EDWARD THOMAS**

TOCYNNAU: £6.50 (gost £3.50)

Gyda Owen Garmon, Timothy Lyn, Sharon Morgan, Richard Lynch, Wyndham Price, Marged Esli, Gareth Morris, Matthew Aran, Russell Gomer a Grug – Maria Davies




Amgueddfa
Genedlaethol
Cymru

## Y CASGLIAD BRENHINOL

Paentiadau o Gastell Windsor

Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd
2 Tachwedd 1990 – 24 Chwefror 1991



Am fwy o fanylion, cysylltwch â Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd
(0222) 327951

# ARDDANGOSFEYDD

**PRINT-NEWYDDION**
**PRINT-NEWYDDION**

**1 Rhagfyr – 12 Ionawr**
Arddangosfa o waith arbenigwyr Cymru mewn printiadau. Engreifftiau o wahanol dechnegau – ysgythriadau, lithograffau, printiadau sgrîn ac ati.

Dewisir y gweithiau gan banel, a'i harddangos ar y cŷd yn Chapter hefyd. Bydd gweithiau ar werth, a bwriedir creu cyflenwad o printiadau parhaol, gydol y flwyddyn yn Oriel.

**Ffair Grefftau**
**10-24 Tachwedd**
Gwaith ugain o wahanol grefftwyr o Gymru ac o'r tu allan. Ceramig, gwydr, gemwaith, ac hyd yn oed sgarffau a teis. Agorir tan 8.00 ar nos Iau un ystod cyfnod y ffair.

**Dyluniadau Dynford Wood**
**8-24 Rhagfyr**
Nwyddau o sidan wedi ei peintio â llaw.

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**
**y Prif Adeilad**
**Parc Cathays**
**Y Casgliad Brenhinol –**
**Paentiadau o Gastell Windsor**
**2 Tachwedd 1990-24 Chwefror 1991**
Gyda chaniatâd Ei Mawrhydi y Frenhines y daw'r arddangosfa bwysig hon. Dyma'r tro cyntaf i'r holl luniau gael eu harddangos gyda'i gilydd i'r cyhoedd eu mwynhau. Noddwyd gan Dŵr Cymru.

Casglwyd y mwyafrif o'r lluniau sydd yn yr arddangosfa naill a'i gan Sior III neu ei fab Sior IV.

Ym mysg y darlunniau y mae nifer gan Canaletto. Gan fod cymaint ohonom yn yr oes hon wedi cael y fraint o ymweld â Fenis, y mae'r golygfeydd o'r camlasau a'r adeiladau yn golygn mwy i ni. Cynrychiolir yr artistiaid Seisneg gan Gainsborough, Hogarth, Landseer, Stubbs a Sir Thomas Lawrence.

**Amgueddfa Cenedlaethol Cymru**
**y Prif Adeilad, Parc Cathays**
Derbyniodd yr Amgueddfa ychwanegiad gwerthfawr i'r casgliad o dirluniau o'r 14 ganrif cynnar yn 'Codiad yr Ehedydd' gan Samuel Palmer (1805-1881). Mae'r darlun i'w weld yn Asgell Ddwyreiniol 4 y prif adeilad yn Cathays. Ysbydolwyd y gwaith gan gerdd John Milton, 'L'Allegro' –
'To hear the lark begin his flight . . .'

Os ewch i'w weld, cymerwch y cyfle i fwrw golwg ar beintiad Amico Asperini, 'Y Forwyr a'r Plentyn gyda'r Seintiau', a ddefnyddiwyd fel clawr-lun y Dinesydd ym 1988 ac sydd yn awr yn yr oriel newydd yn yr Asgell Ddwyreiniol.

Codir tâl am fynediad i'r Prif Adeilad.

**Eglwys Gadeiriol Llandaf**
**Triptych Allor Rossetti**
Cafwyd colled yng Nghapel bach Sant Illtyd tra roedd y triptych arbennig hwn yn cael ei lanhau. Erbyn hyn, mae'n ôl yn ei le ac yn edrych yn odidog. Y mae'n enghraifft gwych o waith yn o'r Cyn-Raphaeliaid, a'r testun yw 'Had Dafydd'. Yn y darlun ar y chwith y mae Dafydd yn llanc o fugail, ac ar y dde, Dafydd y brenin. Yn y canol ceir y panel sydd yn dangos yn baban Iesu ar lin ei fam ac yn destyn edmygedd y cyfoethog a'r tlawd, tra yr arolygir y cyfan gan angylion.

Seiliodd Rossetti wyneb Mair ar bryd Jane Burden, gwraig William Morris, tra bu gwyneb William yn fodel i Dafydd frenin. Gwerth ei weld, yn enwedig yn ystod Gŵyl y Geni. Nadolig Llawen.

**SD**

# CANOLFAN NEWYDD Y DIGARTREF

**Ar ddydd Mercher, 17 Hydref, gwelwyd gwireddu un o gynlluniau mwyaf mentrus Cyngor Dinas Caerdydd yn y rhan ogleddol o ardal y dociau. Ar y diwrnod hwnnw, agorwyd drysau canolfan newydd ar gyfer y digartref, canolfan sydd i gymryd lle yr hen loches nos oedd wedi ei lleoli yn Crichton Street.**

Diau y bydd llawer o ddarllenwyr *Y Dinesydd* yn cofio am y lloches honno. Fe'i hagorwyd tua saith mlynedd yn ôl i roi cysgod yn ystod oriau'r nos i'r degau hynny o ddynion sy'n crwydro strydoedd y ddinas. Yr oedd lle yno i tua 30 o bobl, ond darpariaeth sylfaenol iawn oedd yn cael ei chynnig i'r rhai oedd yn troi i mewn. Ni fwriadwyd erioed iddi fod yn lloches barhaol; cytiau symudol oedd yr adeiladau, ac ar y dechrau, nid oedd hyd yn oed staff i'w rhedeg. Gŵr o'r enw Fred Joseph fu'n cadw trefn yno; gwnai'r cwbl yn wirfoddol, ond yr oedd mawr angen am fwy o oruchwyliaeth gan rai o weithwyr y Cyngor.

O ganlyniad, penodwyd tîm i ofalu am y lle, a dechreuwyd sôn am adeiladu canolfan barhaol. Bu siarad felly o'r blaen yn y gorffennol, ac ni chredai neb ohonom y gwelem y fath adeilad yn cael ei godi. Ond y mae'n glod i'r Cyngor, ac i'r unigolion hynny a fynnodd weld gwireddu eu gweledigaeth, fod y cynllun wedi mynd yn ei flaen. Ymddengys nad oes ond tair canolfan arall debyg ym Mhrydain gyfan, ac mae'n wir i'w ddweud fod Dinas Caerdydd wedicymryd cam mawr ymlaen yn ei gofal dros y cyfeillion hyn.

Pan welais y ganolfan am y tro cyntaf, ni allai geiriau fynegi'r llawenydd a deimlais. Wrth gerdded i mewn drwy'r drysau gwydr, hawdd fyddai credu eich bod wedi cyrraedd gwesty. Ar y dde y mae cadeiriau esmwyth yn glwstwr o amgylch y teledu a'r fideo; o'ch blaen mae'r cownter cofrestru, ac ar y chwith, nifer o fyrddau cegin i'r gwesteion gael bwyta wrthynt. Yr ydych yn ymwybodol o'r carped moethus sydd o dan eich traed, ac y mae'r cyfan o'r cyntedd croesawu hwn wedi ei gynllunio gyda chwaeth a dychymyg.

Wedi cofrestru, rhoddir allwedd ystafell ichwi, ac mae'r ystafelloedd i gyd wedi eu gosod mewn unedau (neu fflatiau) o bump er mwyn hyrwyddo'r syniad o gymuned. Ymhob fflat gwelir cegin a lolfa, ac ymhob ystafell, wely cyfforddus, cypyrddau a lle i ymolchi.

Un peth pwysig am y ganolfan hon yw ei bod yn darparu ar gyfer merched. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd yn nifer y merched sy'n crwydro'r strydoedd, ac yr oedd yn rhaid gwneud rhyw fath o ddarpariaeth ar ey cyfer hwythau. Y maent felly wedi eu cynnwys o fewn y cynllun hwn.

Mae'r ganolfan ar agor bedair awr ar hugain y dydd, a phob dydd o'r flwyddyn. Yn ogystal a chysgod, gwely a bwyd, mae hefyd yn cynnig cyngor gan arbenigwyr a gofal meddygol i'r rhai sydd yn aros yno.

Wedi treulio ei noson gyntaf yn y ganolfan newydd, sylw un o'r dynion oedd, "This isn't a night shelter – this is a five star hotel!" A gwir y dywedodd. O roi problemau rhai o'r bobl hyn mewn categorïau, fe dybiwn i eu bod yn broblemau pump seren. Llawenydd mawr yw gweld fod Cyngor Dinas Caerdydd yn gwneud ymdrech bump seren i'w datrys. Llongyfarchwn hwy yn galonnog a dymunwn yn dda i'r ganolfan a'i gwesteion dros gyfnod y Nadolig ac yn ystod y flwyddyn newydd.

**Geraint Tudur**

# LLYTHYRAU

## ANNWYL DINESYDD

Cytunaf â Mr Elfan W Jones mai'r ffordd ymlaen gydag addysg Cymraeg yw sicrhau mwy o ysgolion (Dinesydd, rhifyn Hydref) le wir, braf fuasai gweld Ysgol Cymraeg ym mhob ardal yng Nghaerdydd, o fewn pellter cerdded i gartref pob plentyn, braint a gafwyd ers dechrau'r ganrif i blant sydd wedi derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg.

Parodd gweddill o sylwadau Mr Jones gryn siom i mi am eu bont yn gamarweiniol, ac wrth hynny, gallent roddi gobeithiau ffug i rieni meithrin sy'n disgwyl lle iw plant yn Ysgol Bro Eirwg.

– Mae'n amheus iawn gennyf a yw'r ysgolion a enwid gan Mr Jones, sef Allensbank, Glan y Llyn, Albany Road a Pharc y Rhath yn llawnach nawr nag yr oddynt yn 1983. Pe bai yntau wedi gwneud ei waith cartref yn drylwyr, falle buasai wedi cael cryn sioc o wybod y nifer uchel o lefydd gwag sydd ar gael yn yr ysgolion hyn. Nid rhain yw'r unig ysgolion yn yr ardal gyda llawer o ystafelloedd gwag.

– Yn ôl y deallaf mae Ysgol Bro Eirwg wedi derbyn mwy na 60 o blant i'w dau dosbarth derbyn ar ddechrau y tair blynedd ysgol ddiwethaf, felly mae adran babanod yr ysgol yn orlawn. Yn dilyn o hyn, pe na bae cynnydd yn y nifer o blant sy'n cael lle yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd yr ysgol yn orlawn o fewn pedair blynedd.

Am fod rhieni meithrin yn ymwy bodol o'r cynnydd sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn y galw am addysg Gymraeg, mae llawer ohonynt yn gofidio a fydd lle ar gael i'w plant.

Yn ystod y flwyddyn hyn bu pryder hefyd ymysg rhieni cynradd, yn sgil cynllun awdurdod addysg De Morgannwg i ddyblu maint Ysgol Y Wern ag Ysgol Coed y Gof, erbyn 1996.

Ddeg mlynedd yn ôl polisi yr awdurdod oedd datganoli, pryd y sefydlwyd Ysgolion Cymraeg, un ffrwd, yn y gwahanol faes drefi. Mae rhieni a darllenwyr y Dinesydd fel ei gilydd yn gwybod yn dda am lwyddiant ag effeithioldeb yr ysgolion bach hyn. Daw nifer helaeth o'r plant o gartrefi di-Gymraeg, ac mae'r awyrgylch gartrefol, ddeniadol a dedwydd sydd ar gael yn hanfodol i feithrin gallu cyffredinol a ieithyddol y plant. Yn sgil eu llwyddiant mae llawer or ysgolion hyn yn orlawn.

Nid yw'r awdurdod wedi ystyried yn fanwl na difrifol y cynnydd aruthrol mewn addysg Cymraeg, er i rai o'r cyrff cyhoeddus dynnu ei sylw i'w diffygion yn gyson ar hyd y blynyddoedd.

Nid yw'r paratoadau angenrheidiol i roddi darpariaeth deg a chyflawn o ysgolion Cymraeg wedi ei wneuthur. Fel cam cyntaf erfyniaf arnynt nawr i sefydlu ysgol i dderbyn plant meithrin dwyrain a chanol y brifddinas, ond yr un pryd i beidio a parhau i esgeuluso ardaloedd eraill.

Yr eiddoch yn gywir,

**D Jones**

Annwyl Dinesydd,

Fe hoffwn i chi brintio'r llythyr yma oherwydd hoffen i Cymry Cymraeg weld a deall ein problem ni fel pobol ifanc dan deunaw oed. Rydw i a fy ffrindiau (sydd yn 14-15) yn hoff iawn o pop Cymraeg, a gigs. Y broblem yw, fod dim gigs i bobl ein hoedran ni. Mae POB gig naill ai yn Clwb Ifor, neu yn y Students Union, a does dim llawer i gael ta beth. Fe es i a fy ffrind i Glwb Ifor y wythnos diwethaf i geisio mynd i'r gig hefo Tynal Tywyll a Hanner Pei (rydym yn hoff iawn o'r ddau) ac er ei bod nhw yn gadael i chi archebu tocynnau dros y ffôn, heb hyd yn oed gofyn na sôn am oedran, pan gyrrhaeddon ni (a tua hanner cant eraill) oedd dan oedran, ni adawyd ni mewn oherwydd fod yna 'raid' wedi bod yr wythnos gynt (cyn hynny aethom ni, a doedd dim sôn am cael cerdiau ID, a doedd dim problem â diodydd meddwl ychwaith). Buasen yn gallu derbyn hyn ond pan ddaeth hi i tua 10.40, cafodd cwpwl o ni ein taflu allan, a bu'n rhaid i ni hongian o gwmpas nes tua 12.00 nes i ni allu cael tacsi adref. Buasai hyn hefyd yn iawn, ond NI CHAFODD llawer o'r pobl eu taflu allan oherwydd fod gyda nhw gysylltiadau yn y clwb. Tybed os yw'r ddihareb Saesneg "It's not what you know, it's who you know" yn berthnasol i'r gymdeithas Cymraeg dyddiau hyn?

Yn Gywir,

**Minnie Watkins**

Ysgol Glantaf

# HEL MEDDYLIAU

**Pan fyddai Dylan Thomas wedi bod ar y sbri yn Abertawe ac yn ceisio osgoi ei wraig Caitlin a fyddai'n chwilio amdano, byddai'n dianc i Siop Ralph's y llyfrwerthwr enwog ("Ralph The Books") a chuddio yn adran y llyfrau crefyddol yno. Gwyddai na fyddai Caitlin byth yn chwilio amdano yn y fan honno!**

'Roeddwn yn Llyfrgell hardd y ddinas 'ma yn ddiweddar ac yn chwilio am un o lyfrau Tolstoi, llyfr eitha' adnabyddus hefyd. Ymdynghorwyd â'r cyfrifiadur hollwybodol a chael fod mwy nag yn copi o *Rhyfel a Heddwch* ar gael, a mwy nag yn copi a *Anna Karenina*, ei ddwy nofel fydenwog. 'Roedd copïau o'i chwilio amdani. Pam? Yr ateb syml oedd ei bod ymhlith y llyfrau crefyddol wrth gwrs!

*Cyffres* (*A Confession* yn Saesneg) oedd y gyfrol ac ynddi mae Tolstoi yn adrodd hanes dechrau ei dröedigaeth Gristnogol. 'Roedd yn hanner cant oed pan oedd yn barod i gydnabod y droedigaeth honno'n gyhoeddus a dechreuodd ysgrifennu *Cyffes* a chymryd tair blynedd i orffen y gwaith. Gyda llaw, gallasai Tolstoi ddysgu gwers neu ddwy mewn afradlonedd i Dylan hyd yn oed – yn arbennig mewn meddwi a mercheta. Ni bu mab afradlon mwy na Leo Tolstoi.

"Dechrau ei dröedigaeth" meddwn. Yn wahanol i bechaduriaid edifeiriol sy'n barod i enwi "yr awr a'r lle", nid yw mor hawdd amseru na lleoli tröedigaeth yr athrylith o Rwsia yn gyflawn. Gwyddai Pantycelyn, er enghraifft, am y bore a'r lle: "Dyma'r bore byth mi gofiaf/Clywais innau lais y nef . . ." Llais Hywel Harris yn pregethu ym mynwent Talgarth, wrth gwrs, oedd y llais a'r lle. Yr oedd Williams yn 19 oed bryd hynny. Ac ugain oed oedd Ann Griffiths pan glywodd y Parch Benjamin Jones o Bwllheli yn pregethu yng nghapel Pendref, Llanfyllin a bu'n gyfrwng ei thröedigaeth. Dywedir mai yn ei ugeiniau cynnar, yn 21 neu 22 oed, oedd Saul o Darsus pan ganfu'r goleuni a chlywed y llais ar ffordd Damascus a throi'n bregethwr y Ffydd yn hytrach na'i herlidiwr.

Nid oedd Tolstoi, y dyn canol oed, felly'n ffitio i'r patrwm oedran o gwbl. A cheisio ymateb i'r broblem oesol "Beth yw ystyr bywyd? A oes ystyr iddo?" wnaeth Tolstoi. Yn allanol, nid oedd ganddo ddim i'w boeni. 'Roedd yn gyfoethocach na'r rhelyw o bobl Rwsia; 'roedd yn cael ei gydnabod yn un o nofelwyr mwya'r byd, onid y mwyaf; nid oedd angen chwilio am boblogrwydd nac enwogrwydd arno. 'Roedd popeth ganddo. Popeth ond bodlonrwydd meddwl ac enaid. Er ei holl athrylith, ei holl gyfoeth a'i enwogrwydd, nid ynddynt hwy yr oedd yr ateb i broblemau Tolstoi. Crist a Christnogaeth a allasai roi hwnnw iddo. Dyna pam y croniclodd stori ei dröedigaeth yn *Cyffres* ac ni bu bywyd yr un fath iddo. Daeth newid chwyldroadol yn ei syniadau a'i agwedd tuag at gyfoeth a gwleidyddiaeth a llenyddiaeth hithau. Bellach yr oedd Cristniogaeth yn cyffwrdd â phob arwedd ar ei fywyd.

* * * *

Ni sylweddolodd Dylan yn Siop Ralph's, Abertawe fod ei iachawdwriaeth yntau – pe bai'n chwilio amdani – yn agosach nag a feddyliodd ymhlith y cyfrolau 'sych' hynny o'i gwmpas.

Bûm yn meddwl wedyn – a oedd copi o *Cyffres* Leo Tolstoi yn eu plith tybed?

**HE**

# EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

**Os o'ch chi'n digwydd bod yng nghyffiniau Neuadd Dewi Sant, ddydd Gwener, Hydref 5ed, fe fyddech, mae'n debyg, wedi gweld plant o gwmpas y lle. Lot o blant – cannoedd o blant, ac i fod yn fanwl gywir, dros 700 ohonyn nhw! Ro'n nhw yno i gyd am yr un rheswm – i berfformio ar lwyfan neuadd Dewi Sant mewn cyngerdd mawreddog wedi'i drefnu gan Bwyllgor Cerdd Eisteddfod Taf-Elái. Dyma'r olaf o'r tri chyngerdd i ni eu trefnu yn y neuadd, ac fe fydd coffrau Eisteddfod Taff-Elái ryw £14,000 yn llawnach wedi'r cyngherddau hyn. Ond efallai'n bwysicach na'r elw yw'r profiad a gafodd dros fil a hanner o blant o gael perfformio yn ein Neuadd gyngerdd genedlaethol.**

Fe ddywed Rhys Dafis yn ei gywydd croeso:

"Dewch efo'r haf; dewch i fro
Fu'n ddiffrwyth, a fynn ddeffro;
Deffro i weld ei pharhad
A pharhau ei ddeffroad.
Awn at yr yd; na, nid rhith
Ym Morgannwg mo'r gwenith."

Beth amdani? Fe fydd na groeso mawr i chi ar Faes yr Eisteddfod yn Nhonyrefail.

**Euros Rhys Evans**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cerdd**

# merched y wawr

Hwyrach y byddai Mrs Beeton wedi dechreu'r noson gyda'r geiriau – daliwch hwrdd corniog, wedi ei drin, tynnwch ei gorn (neu ei gyrn os oes angen dau), yna berwch nhw (y cyrn nid yr hwrdd) am ryw awr. Hynny er mwyn . . . , a dyna un o'r rhyfeddodau gafwyd gan Gwyn Owen yn ein cyfarfod mis Hydref.

Fel tipyn o gamster ar drin pren at wneud ffyn (a mwy), fe roddodd i ni doreth o wybodaeth. Meddyliwch am ffyn y Beibl – rhai at daro eraill yn cysuro. Ac i fod yn gyfoes – fe roddwyd bod-ffon, o waith ein siaradwr, i bob un o'r chwech sy'n cynrychioli enwad yn yr ymgais ddiweddaraf at ddod a holl aelodau sy'n arddel cred dipyn yn nes at eu gilydd. Pam bod-ffon? Wel am ei bod yn ffon yn dda dros ben wrth ddisgyn. Arwyddocaol iawn!

Onibai i chi fod gyda ni, fydde chi ddim yn gwybod sawl blwyddyn gymer hi i dyfu ffon; a'i bod yn bosibl tyfu ffon o hedyn.

Ond un o'r ffeithiau rhyfeddaf i mi ei dysgu oedd am y gabetshen (neu fresychen) arbennig honno sydd a'i choes yn gymwys at wneud ffon. A mwy na' hynny fe gawd riset 'stwffin' i'r goesen ryfedd hon – ac y mae'n amheus gen i a fyddai hi Mrs Beeton wedi rhoi'r wybodaeth yma i ni!

Fe gawsom ni hyn i gyd, a mwy, mewn cyfarfod hwylus dros ben.

Byddwn yn cwmnia gyda'r Prif-lenor Ray Evans nos Lun Tachwedd 8. Mae 'na baned hefyd.

# GYDA GOLWG AR Y DOLIG

Yn dilyn ar arddangosfa lwyddiannus a gafwyd y mis Mawrth diwethaf mae'r arlunydd adnabyddus Mary Lloyd Jones yn dychwelyd i'r hen Ysgol Llysfaen ddiwedd y mis.

Ymysg yr artistiaid eraill a fydd yn arddangos gyda hi fe fydd dau arlunydd lleol.

Mae arddull gartrefol yr arlunydd o Lysfaen G Wyn Davies yn adnabyddus i nifer yn yr ardal ac fe fydd yna gyfle i weld ei ddyfrliwiau diweddaraf.

Fis Medi eleni fe benderfynnodd Anthony Evans gefnu ar ei swydd fel pennaeth celf yn Ysgol Glantaf, i ganolbwyntio ar ei yrfa fel arlunydd. Fe fydd nifer o'i beintiadau olew i'w gweld yn yr arddangosfa.

Tra gwahanol fydd perfformiad trydydd artist lleol. Yn ystod yr arddangosfa ceir perfformiadau gan y delynores ifanc Elin Angharad Evans.

Mae hwn yn gyfle prin i'r cyhoedd i weld amrywiaeth o waith ac yn gyfle i brynu'r anrheg Nadolig delfrydol – o ddyfrluniau i grochenwaith, o gerfluniaeth i emwaith a'r cyfan am brisoedd rhesymol.

Fe fydd yr arddangosfa ar agor:
Gwener 23 Tachwedd 10am-8pm
Sadwrn 24 Tachwedd 10am-6pm
Sul 25 Tachwedd 10am-6pm

***Galwch Heibio!***

# MENNA'N MANYLU



**A ninne bron â ffanwelio â'r flwyddyn gynta yn y 90 au, dyma roi cynnig ar gystadleuaeth mewn steddfod leol yn diweddar ar y testun hwnnw. Fel hyn o'n i'n ei gweld hi erbyn diwedd y ddegawd – a'r ganrif!**

## CÂN: 90au

Bonjourno fy cherie, how comment ça va?
En daxi, senior, ond mae'r ieithoedd ma'n bla!
My Inglish is worsening, my Doitch is good iâ,
A'm Welsh i'n waethygus, tŵ bad yn de Wa.

Mae pawb ar crash courses yn dysgu pob iaith
Gan symud i Ewrop i chwilio am waith;
A gadael Cymreictod a Galoais o'u hôl
I wneud lle i'r hipis gael gwario'u pres dôl.


Poll Tax est un nunseance, a finne mor dlawd;
Bambino yn diodde, my chwaer et fy mrawd,
Dwi'n talu am weithio, yn talu am fyw –
Mae'n rhatach i farw – 'sdim lloge gan Dduw!

Le Robot sydd rwan yn godro fy muwch,
Eu hel nhw i'r beudy, trwy'r llaca a'r lluwch.
Dwi'n pwyso remote gan fod hynny'n lot haws –
La créme sydd yn yoghurt a'r menyn sy'n gaws.

Nein tarw is needed pan buwch isio llo:
A.I. sy'n hen ffasiwn, a'r gwartheg o'u co'.
Y broses yw transplant i embryos ffresh –
Cyn hir gwelwn ffermydd a lloeau mewn cresh!

Exams non-existant, wel dyna chi dda –
TGAU wedi peidio, a'r hen Lefel 'A'.
Dim bwys os yw'ch IQ mor di-ddim â phren –
Compiwtars sy'n gweithio'ch holl frêns yn eich pen.

Beth tybed a ddigwydd i'n ŵyrion a'n hil
Cyn diwedd y ddegawd a'r flwyddyn dwy fil?
Mae'n debyg mai dalecs a enir i'n plant,
A phawb erbyn hynny'n cael byw yn dri chant!



## CROESAIR AP LEWSYN Rhif 105 Tachwedd/Rhagfyr 1990

**AR DRAWS:**

8. Trefnodd y plant di-riant am fad iddi. (8)
9. Gwneir yr union yn gam. (6)
10. Wedi ei gwtogi rhagor y llall. (6)
11. Ymlynodd yn sigledig wrth y bedol, gan ymdawelu. (8)
12. Hen hurtyn oedd e'. (4)
13. Eithafbwynt Dyffryn Afan. (SS 8996) (10)
15. Y lle tywyllaf ymhlith y gwartheg duon? (3,4)
16. Y maent newydd droi yn ôl . . . (7)
19. . . . a newydd gael dolur y mae hwn. (3,4,3)
21. Golau ar gyfer Noson Tân Gwyllt. (4)
22. Hon sydd yn ein derbyn i fyd newydd. (8)
24. Ai lle i gadw anifeiliaid gwyllt yng Ngardd Eden yw'r wlad hon? (6)
25. "A . . . i oesoedd diderfyn" (Emyn David Charles). (6)
26. Ystafell i draethu doethineb a gwybodaeth. (8)

**I LAWR:**

1. Mynd yn rhan o gynghrair yr UNO? (8)
2. "Drain ac ysgal mall a'i medd, . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . ." (Ieuan Brydydd Hir). (5,2,2,6)
3. Gwerthwyr chwyrn mart a ffair. (10)
4. Dyledus barch a delir i rinwedd a gallu'r "meddyg de" ym Maldwyn. (7)
5. Ymbil swynol. (4)
6. Y rhesymoldeb a'r ffordd o edrych ar bethau sy'n nodweddu pawb call (gan gynnwys nyni ein hunain, wrth gwrs). (7,8)
7. Y dolur a welwyd pan gydiodd ef yn y ddraenen. (6)
14. Cafwyd tâl gan Sara am y gyflafan a wnaed. (10)
17. Fel welwch greiriau yma. (8)
18. Gwiail wedi eu plethu i wneud bag i Des i gario nwyddau. (7)
20. Un o'r Manwyson? Ie, siwr. (6)
23. Archoll. (4)

## CYSTADLEUAETH RHIF 105

Tocyn llyfr £5 eto. Enw a cyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn Rhagfyr 8fed, os gwelwch yn dda.


## CYSTADLEUAETH RHIF 104

Digwyddodd rhywbeth anarferol o anffodus y tro hwn, sef cambrintio rhan o'r patrwm. Fodd bynnag, derbyniodd ein datryswyr deallus yr her, ac, o gofio bod croeseiriau'r Dinesydd bob amser yn symetrig o gwmpas y canolbwynt, aethant ati i gywiro'r patrwm cyn ei ddatrys yn llwyddiannus. Yn wir, awgrymodd dau neu dri fy mod wedi peri'r cambrintio yn fwriadol fel prawf pellach ar eu medr.

Derbyniwyd un-ymgais-ar-hugain, deunaw ohonynt yn hollol gywir a rhyw fan wall yr un yn y tri arall. Canlyniad ardderchog! a minnau wedi gofidio oherwydd y gwall argraffu!

Yr enw a dynnwyd ar hap oedd T A Owen, 35 Caswell House, The Crescent, Llandaff ac iddo yntau yr aiff y tocyn llyfrau y tro hwn.

Enwau'r lleill oedd yn hollol gywir oedd: N Mathias, Castellnewydd Emlyn; Beryl Hall, Cyncoed; Gwenda Hopkins, Llanishen; John G Breese, Glan-yr-Afon; Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd; David Bullock, Y Rhath; Idwal Hughes, Y Mynydd Bychan; Gunston Jones, Cyncoed; Marged Davies, Llandaf; Carys Humphreys, Bangor; John Hughes, Llanisien; Delyth Pollard, Radur; Rhodri Jones, Penarth; Mair Tysul Jones, Yr Eglwysnewydd; Buddug Roberts, Yr Eglwysnewydd; Geraint James, Yr Eglwysnewydd; Robin D N Bateman, Yr Eglwysnewydd.



Datrysiad Rhif 104 – Hydref 1990

A BLWYDDYN NEWYDD DDA ?





DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

*Golygydd*
**Shân Emlyn**
5 Yr Hen Dŷ, Heol Fair
Llandaf, Caerdydd CF5 2EE
☎ 0222 567438

*Hysbysebion*
**Gareth Whelan**
Cae'r Delyn
Sant Hilari
Y Bontfaen
CF7 7DF
☎ 0446 772888

*Dylunio, Cysodi ac Argraffu*
**Huw Davies**
Detheridge Cyf
93 Cowbridge Road East
Caerdydd CF1 9AF
☎ 0222 223525
Ffacs 0222 383760

Dyddiad copi rhifyn
Ionawr
**13 – 12 – 90**
14,400 o ddarllenwyr

# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG DINAS CAERDYDD A'R CYLCH
THE WELSH LANGUAGE NEWSPAPER OF THE CITY OF CARDIFF AND DISTRICT

## ARCHEB BANC

Mae angen 200 ychwanegol o gyfeillion ariannog gan y Dinesydd. Mae croeso i chi ddefnyddio Archeb Banc ar gyfer eich cyfraniad blynyddol i'r Dinesydd. Llenwch y ffurflen isod a'i danfon at:

Trysorydd y Dinesydd, 17 West Orchard Crescent, Llandaf, Caerdydd CF5 1AR er mwyn iddo gymeryd y manylion cyn ei danfon ymlaen at eich banc.

Banc ..................................................

Cyfeiriad ..................................................

Rhif eich Cyfrif ..................................................

A wnewch chwi dalu Cyfrif y Dinesydd (Rhif 46123023) Banc Cymru, Kingsway, Caerdydd (Rhif 12-23-00) y swm canlynol sef £ ..................................................
i'w dalu yn gyntaf ar .................................. (dyddiad) ac yn flynyddol wedi' hynny hyd nes y dileir yr archeb banc yma.

Arwyddwyd ..................................................

Cyfeiriad ..................................................

# CYNGOR SIR DE MORGANNWG

## ADRAN ADDYSG

## CYNORTHWY-YDD YSGOL

## YSGRIFENYDDOL RHAN-AMSER

CYF. Y SWYDD P38. GRADDFA 1 £634-£1,127 PA. Yn eisiau yn Ysgol Treganna i wneud gwaith teipio cyffredinol a dyletswyddau ysgrifenyddol. Rhaid i ymgeiswyr allu siarad Cymraeg yn rhugl. Bydd angen i'r sawl a benodir weithio 6 awr yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. Y cyflog cychwynnol isaf yn 21 oed neu'n hŷn yw £931 i flwyddyn. Gwahoddir darpar ymgeiswyr i ymweld â'r ysgol. Byddwch cystal â chysylltu â'r Prifathro i drefnu amser. Tel: Caerdydd 383887.

Mae'r Cyngor Sir wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal mewn gwaith. Cyfleusterau meithrinfa yn Neuadd y Sir (yn dibynnu ar gael lle).

Ffuflenni cais ar gael oddi wrth:
Y Cyfarwyddwr Addysg
Tel: Caerdydd (0222) 872874
CYNGOR SIR DE MORGANNWG
NEUADD Y SIR
GLANFA IWERYDD
CAERDYDD CF1 5UW

DYDDIAD CAU: 14/11/90
14 diwrnod ar ôl ymddangosiad yr hysbyseb hon. (Byddwch cystal â dyfynnu Cyfeirnod y Swydd).



# Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## COEDEN NADOLIG

yn yr
Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, Caerdydd
Nos Iau a Nos Wener, 13eg a 14eg o Rhagfyr, 1990
6.00 – 10.00 – Oedolion £3.00; Plant £1.50

- Goleuo'r Goeden Nadolig
- Siôn Corn yn dosbarthu melysion
- Carolau o gwmpas y Goeden Nadolig, ac yng nghapel Pen-rhiw
- Adrodd Storiau wrth y tan
- Dawnsio Gwerin, ac ymweliad gan Y Fari Lwyd
- Cwrw'r Nadolig a Mins Peis
- Band Pres
- Gweithgaredd ar gyfer y plant yn Ysgol Maestir
- Arddangosfeydd a Ffair Grefftau – anrhegion ar werth

Cyfleusterau'r Amgueddfa – Siop, Bwyty, Popty, Melysion traddodiadol ar werth a.y.b.

# celtic asset management cyf

AELOD O GYMDEITHAS REOLI CYFRYNGWYR, RHEOLWYR A BROCERIAID ARIANNOL

*Rydym yn*

- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd buddsoddi**
- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd a chynlluniau pensiwn**
- **Arbenigo ar arbed treth ar etifeddiaeth**

*ac yn*

**Gwbl annibynnol a di-duedd fel y gallwn ddethol y "buddsoddiadau" mwyaf addas i'r unigolyn neu'r cwmni.**

**TŶ PENHILL,**
**11-13 HEOL PENHILL, CAERDYDD**
CF1 9UP
Ffôn (0222) 394021/4 Ffacs (0222) 383803